

Rhif: WG25541



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Rhaglen Fuddsoddi mewn Llifogydd ac Erydu Arfordirol

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2015



Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Y Broses Ymgynghori.....	3
Crynodeb Gweithredol.....	4
Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad.....	6
Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno â'r angen cyffredinol am Raglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir fel y'i nodwyd?.....	6
Cwestiwn 2 - A oes gennych unrhyw sylwadau am ddefnyddio'r Rhaglen ar gyfer pob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf priodol i ymdrin â'r perygl?	9
Cwestiwn 3 - A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnig i gael Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol i helpu i ddeall perygl o bob ffynhonnell?	11
Cwestiwn 4 - A ydych yn cytuno y dylai Mynegai Perygl Llifogydd barhau i fod yn ddangosydd lefel uchel o risg cyfunol ond y dylid caniatáu i fodelu llifogydd lleol gael ei ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth mewn ceisiadau?	14
Cwestiwn 5 - A oes gennych enghreifftiau lle mae llifogydd wedi digwydd dro ar ôl tro mewn lle a ddangosir ar hyn o bryd fel lle gyda pherygl llifogydd isel?	16
Cwestiwn 6 - A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth sy'n ymwneud ag amddiffynfeydd gael ei heithrio o'r Mynegai Perygl Llifogydd?	18
Cwestiwn 7 - A ydych yn cytuno â'r dull o ymdrin â pherygl Erydu Arfordirol ac y dylid ei farcio ar wahân i berygl llifogydd?.....	20
Cwestiwn 8 - A ydych yn cytuno â'r egwyddorion a nodir am asesu risg o ffynonellau lluosog a sgorio yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is?	22
Cwestiwn 9 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am gyflwyno neu ddatblygu'r Mynegai Perygl Llifogydd arfaethedig?.....	25
Cwestiwn 10. A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y broses ymgeisio?.....	26
Cwestiwn 11 - A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am fwrdd y rhaglen neu lywodraethu Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir?	28
Cwestiwn 12 - A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhoi gerbron?	30
Camau Nesaf	32
Atodiad 1: Rhestr ymatebwyr	33
Atodiad 2: Rhestr talfyriadau	34

Cyflwyniad

Llywodraeth Cymru yw prif ariannwr trefniadau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

Mae deall perygl llifogydd ac erydu arfordirol a blaenoriaethu buddsoddiad yn un o egwyddorion sylfaenol Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009, Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu yng Nghymru (a gyhoeddwyd yn 2011).

O fewn y Strategaeth Genedlaethol, mae *blaenoriaethu buddsoddi yn y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf* yn un o'r pedwar amcan allweddol gydag is-amcan iddo yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru: "*Datblygu Rhaglen Fuddsoddi Genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol*"

Mae hyn yn unol â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ac yn ategu'r dull gweithredu ar gyfer sicrhau gwell Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd targedu buddsoddiad yn helpu i sicrhau y caiff adnoddau eu defnyddio'n effeithlon, bydd yn gwella gwydnwch ein cymunedau a'n seilwaith ac yn sicrhau bod Cymru yn parhau'n lle diogel i fyw, gweithio a buddsoddi ynddo.

Bydd y Rhaglen Buddsoddi arfaethedig ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir (FaCIP) yn datblygu methodoleg ar gyfer blaenoriaethu cyllid i'r ardaloedd hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf ac wrth wneud hynny, yn creu ffordd glir a gwrthrychol o gyfeirio cyllid i'r mannau sy'n wynebu perygl o bob ffynhonnell o lifogydd ac erydu arfordirol.

Cynigir y bydd y rhaglen yn defnyddio Mynegai Perygl Llifogydd cenedlaethol i gyfuno ffynonellau lluosog o berygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn gallu cymharu ardaloedd gwahanol mewn ffordd symlach. Wedyn, defnyddir hyn i gyfeirio buddsoddiad i'r ardaloedd mwyaf priodol.

Yn dilyn y llifogydd arfordirol a gafwyd o amgylch Cymru yn ystod stormydd gaeaf 2013/14, cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad dwy ran i nodi'r effeithiau a'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r stormydd a chyflwynodd 47 o argymhellion ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol. Roedd nifer o'r argymhellion hyn yn canolbwyntio ar gyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ac roedd argymhelliad 29 yn cyfeirio at ddatblygu rhaglen o fuddsoddi (FaCIP). Bydd cwblhau'r ymgynghoriad hwn hefyd o gymorth wrth roi'r argymhelliad hwn ar waith.

Mae'r ddogfen hon yn darparu crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad ar y Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir a ddefnyddir i lywio'r broses o ddatblygu'r rhaglen.

Y Broses Ymgynghori

Datblygwyd yr ymgynghoriad er mwyn ystyried y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru er mwyn sicrhau y caiff cyllid ei dargedu at y mannau hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Ystyriodd yr ymgynghoriad nifer o gwestiynau o ran sut y byddai'r rhaglen yn gweithredu gan ddefnyddio dealltwriaeth ofodol o berygl llifogydd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ariannu mwy hyddysg, yn seiliedig ar ardaloedd.

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 17^{eg} Rhagfyr 2014 a daeth i ben ar 6^{ed} Mawrth 2015, a chafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion. Gosodwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru ac fe'i hanfonwyd at randdeiliaid perthnasol.

Crynodeb Gweithredol

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn o blaid datblygu Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir a Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, gan groesawu'r cyfle cysylltiedig i gynnig ffordd glir a thryloyw o asesu a deall perygl llifogydd.

Wrth lunio'r crynodeb hwn o ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd nifer o themâu cyffredin, yn arbennig mewn perthynas â datblygu'r Mynegai Perygl Llifogydd a threfniadau ariannu.

Wrth drafod y Mynegai Perygl Llifogydd, codwyd pryder o ran sut y gallai mynegai a fydd yn cyfuno perygl llifogydd afonol, arfordirol a dŵr wyneb wyro buddsoddiad tuag at awdurdodau lleol arfordirol lle y ceir perygl posibl o bob un o'r tair ffynhonnell, a thrwy hynny, felly olygu y byddai awdurdodau lleol mewndirol o dan anfantais gan na fyddant byth yn wynebu unrhyw berygl arfordirol. Nodwyd dŵr daear hefyd fel problem gynyddol a mater y dylid ei ystyried ymhellach i'w gynnwys o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid ymdrin â'r perygl o erydu arfordirol ar wahân i berygl llifogydd, yn arbennig gan y gallai hyn achosi tuedd pellach tuag at ranbarthau arfordirol drwy gyfuno'r ddau fath hyn o berygl. Gall effeithiau erydu arfordirol fod yn wahanol iawn i effeithiau llifogydd, gan arwain at golli tir yn barhaol heb obaith o'i adfer mewn rhai achosion.

Yn ogystal ag ystyried ardaloedd o bryder cenedlaethol, mae angen i'r rhaglen hefyd ddefnyddio data a gwybodaeth i nodi materion lleol ac atebion gwerth is, ar raddfa lai, megis diogelu eiddo unigol a gwell rhybuddion a mesurau gwydnwch. Mae gwybodaeth leol hefyd yn golygu y bydd mwy o botensial o ran cael cefnogaeth cymunedau lleol a'u hannog i dderbyn cynlluniau. Bydd angen i'r rhaglen hefyd ystyried sut y caiff ardaloedd eu blaenoriaethu rhwng digwyddiadau amledd isel ond canlyniad uchel a llifogydd effaith isel mwy rheolaidd.

Roedd consensws cyffredinol y dylid cynnwys data ar amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd er mwyn osgoi sefyllfa lle y câi buddsoddiad ei dargedu at ardaloedd lle ceir amddiffynfeydd yn barod. Dylid datblygu'r Mynegai Perygl Llifogydd a'i ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu amddiffynfeydd newydd a'r gostyngiad o ran perygl llifogydd. Felly, rhan gyntaf y broses fyddai llunio rhestr lawn o'r amddiffynfeydd ledled Cymru a'u cyflwr presennol.

Nodwyd trefniadau ariannu fel mater o fewn yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan godi cwestiynau penodol ynghylch yr eithriad a gynigir ar hyn o bryd o ran cyllid refeniw o FaCIP. Roedd llawer o'r farn y dylid cynnwys cyfalaf a refeniw o fewn y Rhaglen o'r cychwyn cyntaf, yn enwedig gan fod cyswllt rhwng y ddau o ran cynnal a chadw a gwella amddiffynfeydd newydd ac amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes. Yn arbennig, cododd awdurdodau lleol bryderon o ran ariannu, ansicrwydd cyllidebau yn y dyfodol a sut y gallai hyn effeithio ar waith newydd a gwaith sy'n mynd rhagddo. Cyflwynwyd cwestiynau i'r bwrdd eu hystyried o ran hyblygrwydd trefniadau ariannu yn y dyfodol o fewn y rhaglen i redeg dros flynyddoedd ariannol a symleiddio grantiau awdurdodau lleol. Codwyd cwestiwn pwysig hefyd i'w ystyried o ran sut y caiff gwaith atgyweirio brys ei ariannu drwy FaCIP yn y dyfodol.

Gan symud ymlaen gyda FaCIP a'r Mynegai Perygl Llifogydd, bydd angen ystyried yn ofalus y ffordd y caiff hyn ei gyfleu i'r cyhoedd. Mae angen i'r cyhoedd ddeall y broses a'r rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir. Os cânt eu cyhoeddi, mae angen cyfleu'r trefniadau ar gyfer mapio ardaloedd perygl llifogydd yn ofalus, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch a phryder diangen, yn enwedig os na chaiff data amddiffynfeydd eu cynnwys, gan y gallai hyn arwain at achosion o ddehongli'r peryglon a wynebir yn anghywir. Bydd cyfathrebu clir â'r cyhoedd yn golygu y gallant fod yn ymwybodol o'r gwaith parhaus i leihau'r perygl llifogydd, sut a pham y caiff arian cyhoeddus ei wario mewn ardaloedd penodol, annog cymunedau lleol i gefnogi cynlluniau a rhoi'r cyfle i'r cyhoedd drafod a herio penderfyniadau a wneir gan ddefnyddio gwybodaeth leol am ardal.

Cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol i asesu a sgorio perygl llifogydd; cafwyd ymateb cymysg i hyn gan yr ymgynghoreion ac felly, mae'n bosibl y bydd angen ei ystyried ymhellach. Codwyd pryderon o ran achosion pan fo effeithiau perygl llifogydd yn croesi ffiniau ac o ran y potensial y gellid methu ardaloedd llai sy'n wynebu perygl uchel o fewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol ag arwynebedd eang. Mewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lleol mwy, roedd pryder mai dim ond llifogydd o brif afonydd a'r môr fyddai'n cael eu hamlygu, gan fethu allan ar ffynonellau llifogydd lleol sy'n effeithio ar nifer lai o eiddo yn fwy rheolaidd. Mae gwybodaeth am asesu perygl llifogydd eisoes ar gael ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer gwaith arall megis Asesiadau Perygl Llifogydd Rhagarweiniol, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a Chynlluniau Rheoli Traethlin.

O ran Llywodraethu FaCIP, cytunwyd bod angen sefydlu bwrdd aml-asiantaeth i oruchwylio'r Rhaglen ac i asesu ceisiadau. Cyflwynodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd amrywiol awgrymiadau o ran pobl ychwanegol y gellid ystyried eu cynnwys ar y bwrdd i lywodraethu FaCIP.


Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau/syniadau o fewn yr ymatebion y gellid eu hystyried ymhellach:

- Gallai sefydlu Cronfa Môn Waith o fewn FaCIP gynnig cyfle i roi cynlluniau llai o faint ar waith a darparu cyllid i amddiffyn eiddo unigol.
- Cronfa ar wahân, wedi'i brigdorri o gyllideb FaCIP, ar gyfer gwaith sy'n ymwneud ag erydu arfordirol neu i roi polisiâu Cynlluniau Rheoli Traethlin ar waith mewn ardaloedd y nodwyd eu bod mewn perygl yn y dyfodol o ran colli eiddo neu seilwaith allweddol o ganlyniad i achosion o golli tir yn barhaol.
- Gallai asesiadau risg fod yn seiliedig ar 1 mewn 30, 100 (200 ar gyfer arfordirol) a 1000 ar gyfer llifogydd afonol ac 1 mewn 10, 5 ac 1 ar gyfer perygl llifogydd o ddŵr wyneb.
- Gellir rhoi sgôr ar wahân i amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd, yn debyg i'r ffordd y cynigiwyd y dylid ymdrin ag erydu arfordirol.
- Er mwyn ymdrin â mater cyllid anghymesur i awdurdodau lleol mewndirol, awgrymwyd y gellid llunio dwy raglen o dan FaCIP, un yn canolbwyntio ar lifogydd ac erydu arfordirol ac un ar gyfer perygl llifogydd afonol a dŵr wyneb.

Ymatebion i Gwestiynau'r Ymgynghoriad

Gofynnodd yr ymgynghoriad 12 o gwestiynau er mwyn cael sylwadau ar ddull arfaethedig Llywodraeth Cymru o ddyrannu ei chyllid ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn canolbwyntio ar yr ardaloedd hynny sy'n wynebu'r perygl mwyaf.

Dengys Ffigur 1 isod ddadansoddiad o'r ymatebwyr. Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn Atodiad 1



Ffigur 1: Ymatebwyr i'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 - A ydych yn cytuno â'r angen cyffredinol am Raglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir fel y'i nodwyd?

Cytuno'n gryf	9
Cytuno	21
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	0
Anghytuno	0
Anghytuno'n gryf	1
Ni roddwyd ymateb	3

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf am ymatebion o ran yr angen cyffredinol am Raglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir. Cafwyd 31 o ymatebion i'r cwestiwn hwn ac roedd 91% ohonynt yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod angen rhaglen o'r fath. Dim ond un ymateb negyddol a gafwyd.

Roedd y sylwadau a gafwyd yn gyffredinol yn gadarn iawn o blaid y cynigion ar gyfer y rhaglen ac roedd ymatebwyr yn awyddus i weld methodoleg deg a thryloyw ar gyfer blaenoriaethu buddsoddiad ar gyfer y cymunedau hynny sy'n wynebu'r perygl llifogydd uchaf. Ystyriwyd bod y rhaglen hon yn ffordd gadarnhaol o wella

effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o roi trefniadau rheoli perygl llifogydd ar waith ledled Cymru yn sylweddol. Nododd ymatebwyr yr angen i gysoni blaenoriaethau FaCIP â strategaethau a pholisïau llifogydd ac erydu arfordirol allweddol eraill gan gynnwys Cynlluniau Rheoli Traethlin, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Rhaglen Arfordir Cyllid Arloesol a Biliau arfaethedig (gan gynnwys Bil yr Amgylchedd a Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

O ystyried nad oes sicrwydd o ran lefelau ariannu yn y dyfodol a'r gostyngiadau yng nghyllid yr UE, ymddengys y byddai'n briodol iawn ystyried y rhaglen buddsoddi hon, yn enwedig os bydd yn arwain at drefniadau gweithio mewn partneriaeth a chyllid ychwanegol.

Roedd rhai o'r meysydd allweddol lle y cafwyd sylwadau cyson am y rhaglen mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Datblygu mynegai perygl llifogydd
- Materion/cwestiynau o ran cyllid, yn enwedig o ran cyllid cyfalaf a refeniw
- Canllawiau arfarnu prosiectau
- Pwysigrwydd cynlluniau/mentrau lleol

Ymhlith y sylwadau a gafwyd roedd y canlynol:

Datblygu mynegai perygl llifogydd

- Mae'r ffordd y caiff y mynegai perygl llifogydd ei ddatblygu a'i gynnal yn holl bwysig er mwyn sicrhau bod y broses asesu yn wrthrychol ar draws pob ffynhonnell perygl llifogydd. Ceir pryder mai dim ond estyniad neu ehangiad ar adnodd blaenoriaethu sy'n bodoli eisoes fydd y Mynegai Perygl Llifogydd, na fydd yn addas ar gyfer cynnal asesiadau gwrthrychol o "bob ffynhonnell perygl llifogydd".
- Dylid ystyried awdurdodau sy'n gwbl fewndirol a all gael mynegai perygl llifogydd is.

Ariannu

- Dylid rhannu cyllid ar sail mynegai perygl a gaiff ei gyfrifo mewn modd gwrthrychol gyda'r cyllid yn cael ei neilltuo i'r mesurau sydd â'r potensial mwyaf i leihau perygl a lle y bo'n bosibl, i ddarparu buddiannau lluosog.
- Mae angen ystyried yr holl gyllid (cyfalaf a refeniw) ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, nid dim ond y cyfalaf. Os na fydd FaCIP yn cynnwys refeniw, mae angen datblygu dull amgen clir o asesu cyllid refeniw ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a'i roi ar waith.
- Mae cyswllt annatod rhwng buddsoddiad cyfalaf a buddsoddiad refeniw, bydd angen refeniw cysylltiedig ar fuddsoddiad cyfalaf mewn amddiffynfeydd newydd er mwyn cynnal a chadw'r asedau hyn.
- Mae angen adolygu'r system ar gyfer dyrannu cyllid refeniw; nid yw'r cyllid a ddyrennir ar hyn o bryd i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn ddigonol i ddiwallu eu holl anghenion o ran gwaith cynnal a chadw. Felly argymhellir y dylid cynnwys cyllid refeniw o'r cychwyn cyntaf neu y dylid cynnwys dull amgen addas sy'n diwallu anghenion Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ac yn sicrhau y gallant gyflawni eu dyletswyddau statudol.
- Ymddengys fod y cynnig hwn yn gyfle coll ar gyfer sefydlu dull priodol i greu rhaglen sy'n cynnwys cyllid refeniw a chyllid cyfalaf o'r cychwyn cyntaf.

- Drwy gyfuno ffynonellau cyllid lluosog, gallai FaCIP wella trefniadau cydweithredu a chynlluniau ar y cyd rhwng Awdurdodau Rheoli Perygl ymhellach, a fydd yn ei dro yn hyrwyddo gwell defnydd o arian cyhoeddus.
- Dylai cyllid FaCIP gynnwys Rhaglen Creu Cynefinoedd Cymru, Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru, monitro arfordirol, gwelliannau hydrometrig, buddsoddiadau mewn systemau TG o bwys cenedlaethol ac o bwys i fusnesau (rhagweld a rhybuddio rhag llifogydd) a chostau gweithredol.
- Yn groes i'r sylwadau cynharach, cododd un ymateb bryder y gallai defnyddio'r Mynegai Perygl Llifogydd arfaethedig i ddyrannu cyllid referniw i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn y dyfodol gael effaith andwyol ar allu rhai o'r awdurdodau hynny â sgôr isel o ran y Mynegai i gael gafael ar gyllid referniw ar gyfer gwaith cynnal a chadw syml.

Canllawiau Arfarnu Prosiectau

- Mae canllawiau arfarnu cenedlaethol cyson yn rhan hanfodol o raglen buddsoddi genedlaethol gyson a chydlynus yn seiliedig ar beryglon. Dylai'r adolygiad arfaethedig o'r canllawiau sicrhau y caiff prosiectau eu cyflawni'n unol â deddfwriaeth amgylcheddol a cheisio cyflawni canlyniadau amgylcheddol lluosog drwy holl brosiectau'r Awdurdodau Rheoli Perygl.
- Mae angen cysondeb o ran arfarniadau ac o ran y dryswch a grëir ar hyn o bryd gan ganllawiau arfarnu lluosog.

Cynlluniau/mentrau lleol


- Mae'n bwysig sicrhau y gellir rhyddhau digon o arian ar gyfer cynlluniau "budd cyflym" llai na fyddant bob amser yn yr ardaloedd lle ceir y perygl mwyaf ond sy'n darparu buddiannau rheoli perygl llifogydd uniongyrchol.
- Byddai'r rhaglen yn helpu cynghorau i gynllunio ymlaen llaw, yn enwedig o safbwynt cynlluniau gwerth uwch. Pryder y byddai'r rhaglen yn dileu gallu cynghorau i gyflawni cynlluniau llai a ariennir gan grantiau hyd yn oed os yw'r gymhareb budd a chost yn uchel.
- Er mai ar lefel genedlaethol yr eir i'r afael â'r perygl llifogydd, mae angen darparu ar gyfer perygl llifogydd ar lefel lleol o hyd.
- Dylai unrhyw strategaeth a gaiff ei datblygu gynnwys cyfleuster i asiantaethau cyfrifol weithredu a chynnal mentrau lleol drwy gyfrwng cyllid referniw yn unol â chynlluniau rheoli perygl llifogydd sefydledig.

Roedd y sylwadau eraill a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

- Awydd i weld Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o ystyriaeth i ffyrdd gwell o ymdrin â'r rhaniad gwledig/trefol.
- Sut y caiff "llwyddiant" ei fesur neu ei feintio? Beth sy'n digwydd os na fydd y rhaglen yn llwyddiannus?
- Mae angen i'r prosesau cymhwyso, dyrannu a monitro fod yn briodol ac yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn manteisio i'r eithaf ar fuddsoddiad gan ffynonellau cyhoeddus a ffynonellau eraill.
- Dylai Rhaglen FaCIP hefyd gynnwys y canlynol:
 - Asesiad o dir amaethyddol sy'n adlewyrchu ei gyfraniad i'r economi fel rhan o gadwyn fwyd y DU, gan gynnwys ffactorau megis prosesu bwyd, cynnig dewisiadau amgen i fewnforio a chyflogaeth.

- Targedau penodol ar gyfer diogelu ffermdir rhag llifogydd ac erydu gormodol.
- Ystyried gwir werth ardaloedd, cymunedau a seilwaith gwledig.
- Rheolaeth weithredol o lifogydd er mwyn lleihau difrifoldeb yr effaith ar ffermdir; er enghraifft, drwy leihau hyd ac amledd llifogydd dros dir amaethyddol.

Cafwyd un ymateb a oedd yn anghytuno'n gryf â'r cynigion gan awdurdod lleol mewndirol. Er bod yr awdurdod yn cytuno bod angen symleiddio'r system bresennol, roedd o'r farn y dylid rhannu'r elfen buddsoddi ar gyfer llifogydd a'r elfen buddsoddi ar gyfer yr arfordir. Roedd o'r farn y byddai'r systemau ar gyfer llifogydd ac erydu arfordirol wedi'u cyfuno â ffynonellau llifogydd afonol a glaw yn y pen draw yn cyfeirio cyllid tuag at ranbarthau arfordirol.



Ffigur 2: Cynllun Arfordirol Bae Colwyn

Cwestiwn 2 - A oes gennych unrhyw sylwadau am ddefnyddio'r Rhaglen ar gyfer pob agwedd ar reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol ym mha bynnag ffordd sydd fwyaf priodol i ymdrin â'r perygl?

Cyflwynodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn a oedd yn rhoi mwy o eglurder a gwybodaeth am y ffordd gallai'r rhaglen integreiddio pob ffynhonnell o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol er mwyn ymdrin yn briodol â'r perygl. Roedd y meysydd pryder/sylwadau allweddol a gafwyd i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn ymwneud â chynnwys erydu arfordirol o fewn FaCIP, yr angen i gydnabod cynlluniau bach lleol a sylwadau pellach am gyllid refeniw.

O ddadansoddi'r ymatebion, roedd nifer o'r ymatebwyr o'r farn y dylid ymdrin ag erydu arfordirol ar wahân oherwydd nodwyd bod erydu a llifogydd yn ddwy her wahanol iawn. Fodd bynnag, ceir cysylltiadau lle mae erydu arfordirol a llifogydd yn rhyngweithio â'i gilydd a dylid eu hystyried fel unig ddangosydd ar wahân i'r rhyngweithio rhwng systemau afonol a systemau glaw nad effeithir arnynt gan y llanw. Mae effeithiau erydu arfordirol yng Nghymru yn amrywio o effeithiau dros dro fel lleihau traethau i golli tir yn barhaol a pherygl i eiddo drwy glogwyni yn erydu heb achosi perygl llifogydd, felly gofynnwyd sut y byddai erydu arfordirol yn gydnaws â FaCIP fel rhan o'r cynnig presennol.

Codwyd pryder hefyd ynghylch y potensial i oramcangyfrif y perygl tuag at ranbarthau arfordirol drwy gyfuno perygl erydu arfordirol a pherygl llifogydd lle mai dim ond llifogydd fydd yn effeithio ar ardaloedd mewndirol. Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau nad yw awdurdodau lleol mewndirol, nad oes ganddynt bryderon o ran erydu arfordirol na gorlfdiroedd sylweddol yn teimlo'n ddig am beidio â chael llawer o gyllid, os o gwbl. Awgrymwyd mewn ardaloedd lle y gall erydu arfordirol byrdymor arwain at lifogydd, yr ymddengys y byddai'n briodol ystyried hyn fel rhan o'r rhaglen. Fodd bynnag, mewn achosion mwy cymhleth, rhaid asesu hyn ar sail achosion unigol. Dylid cynnwys grwpiau rheoli'r arfordir mewn trafodaethau ar y ffordd orau i gynnwys erydu arfordirol mewn FaCIP.

Awgrymodd nifer o ymatebion gyllideb ar wahân ar gyfer erydu arfordirol gydag un cynnig a gafwyd yn awgrymu y dylid brigdorri cyllideb FaCIP a defnyddio'r arian hwn ar wahân ar gyfer gwaith sy'n ymwneud ag erydu arfordirol neu roi polisïau'r Cynllun Rheoli Traethlin ar waith mewn ardaloedd y nodwyd eu bod mewn perygl yn y dyfodol o golli eiddo neu seilwaith allweddol o ganlyniad i golli tir yn barhaol.

Awgrymodd un ymateb mewn perthynas ag erydu arfordirol, yn yr hirdymor, y gallai fod angen opsiynau megis gorchmynion prynu tir gorfodol neu drefniadau i reoli prosesau encilio a gofynnwyd p'un a ddylid cynnwys hyn hefyd o fewn FaCIP neu p'un a ddylai Llywodraeth Cymru lunio rhaglen ar wahân i ymdrin ag achosion o golli tir yn barhaol o ganlyniad i erydu arfordirol?

Codwyd pwyntiau hefyd am y Mynegai Perygl Llifogydd. Nodwyd bod angen gochel rhag asesu blaenoriaethau cenedlaethol yn erbyn perygl yn seiliedig ar ddata hanesyddol gan fod digwyddiadau diweddar wedi dangos y gall llifogydd ddigwydd mewn ardaloedd na chawsant eu hystyried yn flaenorol yn ardaloedd perygl uchel. Nodwyd hefyd y gall ffynonellau perygl llifogydd lluosog greu sefyllfaoedd cymhleth. Er mwyn deall y rhyngweithio rhwng gwahanol ffynonellau o lifogydd, bydd angen i Awdurdodau Rheoli Perygl gydweithio. Gofynnwyd sut y câi'r rhaglen ei defnyddio i flaenoriaethu rhwng digwyddiadau amledd isel canlyniadau mawr a digwyddiadau amledd uchel effaith isel.

Nodwyd ei bod yn bwysig defnyddio mewnbwn a gwybodaeth leol wrth ddatblygu rhaglen FaCIP. Byddai lledaenu data a chronni gwybodaeth ar lefel leol yn arwain at well dealltwriaeth o berygl wrth nodi ardaloedd ar gyfer mentrau. Nodwyd y dylai'r ffactorau a ddefnyddir i sgorio perygl gynnwys elfen o wybodaeth leol oherwydd y gallai hyn helpu i nodi atebion cost isel posibl i rai problemau a thynnu sylw at faterion lleol na chaent eu nodi o bosibl gan waith mapio ar raddfa genedlaethol. Nododd ymatebwyr hefyd yr angen i sicrhau bod cyllid grant ar gael ar gyfer

prosiectau bach ac i amddiffyn eiddo unigol lle na nodir ardaloedd perygl llifogydd o bwys.

Yn debyg i'r ymateb i gwestiwn 1, nodwyd materion ariannu, yn enwedig o ran cyllid refeniw. Awgrymwyd o dan rai amgylchiadau penodol y gall fod yn fwy priodol dyrannu cyllid refeniw i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol er mwyn rheoli, cynnal a gwella amddiffynfeydd presennol yn hytrach na gofyn am arian i ddatblygu cynllun cyfalaf. Gofynnwyd cwestiwn i Lywodraeth Cymru hefyd o ran p'un a gâi cyllid ei ddarparu ar ôl llifogydd i atgyweirio/adnewyddu asedau a ddifrodwyd neu i helpu i adfer y sefyllfa o fewn y rhaglen newydd.

Y gobaith oedd y byddai'r rhaglen hon yn golygu y bydd pob Awdurdod Rheoli Perygl, gan gynnwys cwmnïau dŵr, yn gallu cael gafael ar arian lle y bo'n briodol yn y dyfodol.

Croesawyd y ffaith y byddai'r rhaglen hon yn ystyried pob math o fuddsoddiad mewn rheoli perygl llifogydd yn hytrach na chanolbwyntio'n benodol ar amddiffynfeydd caled, er y gofynnwyd sut y câi'r cydbwysedd buddsoddi rhwng amddiffynfeydd ac agweddau eraill megis mesurau gwydnwch llifogydd, a all fod yn fwy priodol, ei ddatblygu.

Roedd rhai o'r sylwadau eraill a gafwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad yn cynnwys y canlynol:

- Byddai meini prawf wedi'u diffinio'n glir a fyddai'n cynnwys amddiffyn seilwaith cenedlaethol yn fuddiol er mwyn sicrhau bod yr ardaloedd priodol sy'n wynebu perygl yn cael arian.
- Sut bydd y rhaglen/mynegai yn rhyngwynebu â'r trefniadau presennol o fewn Cynlluniau Rheoli Traethlin a chynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol eraill.
- Hyrwyddo ac annog pob Awdurdod Rheoli Perygl i gyflwyno cynlluniau sy'n gydymdeimladol o'r amgylchedd cyfagos ac sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth (e.e. y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr/y Gyfarwydddeb Cynefinoedd).
- Rhaid cydbwyso amcanion sydd wedi'u hanelu'n fras at drefniadau mwy naturiol ar gyfer rheoli tir yr afon a'i gorlifdir ag anghenion tîrfeddianwyr i sicrhau capasiti draenio ar gyfer y tir, rheoli seilwaith draenio a chynhyrchu bwyd mewn modd cynhyrchiol.

Cwestiwn 3 - A oes gennych unrhyw sylwadau am y cynnig i gael Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol i helpu i ddeall perygl o bob ffynhonnell?

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn yn gofyn am sylwadau am Fynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol oll yn gefnogol ac yn croesawu cynigion i ddatblygu mynegai o'r fath a fyddai'n rhoi eglurder a thryloywder wrth asesu a deall perygl. Fodd bynnag, mae angen rhoi proses ar waith i ddarparu esboniad clir o'r meini prawf a ddefnyddir i asesu peryglon ac i egluro sut/pam y cafodd ardal sgôr o'r fath. Mae angen cyfleu hyn mewn ffordd briodol i'r cyhoedd ei deall er mwyn sicrhau cefnogaeth ar lefel gymunedol i'r broses o wneud penderfyniadau.

Yn debyg i'r ymatebion a gafwyd i'r cwestiynau cynharach, nodwyd defnyddio gwybodaeth leol fel thema gyffredin.

Mae'r defnydd o ddata lleol yn fuddiol, yn arbennig o ran perygl lleol a llifogydd hanesyddol. Mae angen i'r Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol fod yn ddigon hyblyg i ddyrannu arian yn seiliedig ar berygl llifogydd lleol lle yr ystyrir bod hynny'n well na setiau data cenedlaethol ac y gellir defnyddio tystiolaeth leol yn hytrach na setiau data cenedlaethol lle mai tystiolaeth well ar gael yn lleol. Cynhwyswyd y defnydd o ddata lleol yn yr ymgynghoriad a'i nodi a'i gefnogi gan ymatebwyr. Cytunwyd bod angen i'r mynegai fod yn fan cychwyn i hwyluso sgysiau lleol rhwng partneriaid yn seiliedig ar fynegai perygl wedi'i phennu a'i blaenoriaethu'n genedlaethol.

Codwyd pryder y byddai cynlluniau lleol llai o faint yn cael eu hepgor o blaid cynlluniau mwy o bwysigrwydd rhanbarthol neu genedlaethol. Ni ddylai'r Mynegai Perygl Llifogydd weithredu fel rhwystr i eithrio atebion perygl llifogydd lleol llai o faint ond ymarferol rhag cael eu hariannu a dylid sicrhau nad dyma'r unig adnodd ariannu sydd ar gael, er enghraifft, mae angen rhyw fath o system ar gyfer sicrhau bod arian ar gael i gynlluniau bach ymdrin ag 1-10 o dai sy'n dioddef llifogydd yn rheolaidd ond nad ydynt mewn ardal perygl uchel. Gwnaed un argymhelliad y dylid datblygu ffrwd ariannu Mân Waith o fewn FaCIP er mwyn rhoi cyfle i ddiogelu eiddo ar lefel unigol neu i ddatblygu cynlluniau llai o faint.

Cafwyd sylwadau ynghylch pa ffynonellau llifogydd y dylid eu cynnwys o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd. Roedd nifer o ymatebwyr o'r farn y dylid cynnwys y perygl o ddŵr daear yn y Mynegai yn ystod cam cynnar gan y gall fod yn fater o bwysigrwydd lleol a bod llifogydd o ddŵr daear yn achosi perygl cynyddol i eiddo ac asedau. Fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, roedd o leiaf un ymateb yn cytuno na ddylid cynnwys llifogydd dŵr daear yn y Mynegai Perygl Llifogydd i ddechrau.

Cafwyd awgrym hefyd y gall fod yn briodol cynnwys cofnodion llifogydd o garthffosydd a gedwir gan y cwmnïau carthffosiaeth yn y data ffynhonnell er mwyn helpu i nodi cynlluniau cydweithredol.

Codwyd rhai pryderon ynghylch y diffyg data da neu gymaradwy ar y peryglon llifogydd sy'n gysylltiedig â dŵr wyneb a bod angen rhagor o waith i ddeall natur gymhleth a lefel y perygl o ddŵr wyneb cyn y caiff ei integreiddio i'r Mynegai Perygl Llifogydd. Awgrymwyd y gellid cyfrifo perygl yn seiliedig ar 1 mewn 30, 100 (200 ar gyfer arfordirol) a 1000 ar gyfer llifogydd afonol ac 1 mewn 10, 5 ac 1 ar gyfer perygl llifogydd o ddŵr wyneb.

Yn debyg i'r ddau gwestiwn cyntaf, codwyd pryderon ynghylch cynnwys erydu arfordirol a'r posibilrwydd y gellid gwro'r Mynegai Perygl Llifogydd tuag at ranbarthau arfordirol drwy asesu dau ffactor gyda'i gilydd gan felly roi awdurdodau mewndirol ac ardaloedd gwledig â dwyseddau poblogaeth isel, sy'n debygol o fod yn is ar y Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, er gwaethaf y posibilrwydd eu bod yn dioddef llifogydd yn amlach, o dan anfantais.

Nododd nifer o ymatebwyr fod methodolegau ar waith eisoes ar ffurf y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl ac ar gyfer Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a bod pryder mai dim ond estyniad/ehangiad ar yr adnoddau hyn fydd y Mynegai Perygl Llifogydd gan greu baich ychwanegol ar awdurdodau lleol a dyblygu gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r adnodd blaenoriaethu presennol yn debygol o ddarparu asesiad

gwrthrychol o'r holl ffynonellau perygl llifogydd. Yn ogystal, un o amcanion allweddol Canolfan Monitro Arfordirol Cymru oedd creu matrices yn diffinio perygl ledled Cymru.

Nododd rhai o'r ymatebwyr y dylid ystyried y system gynllunio yn y rhaglen hon a oedd yn cynnwys cwestiynau o ran p'un a ddylid ystyried y broses gynllunio a'r canllawiau TAN ar gyfer awdurdodau lleol fel rhan o'r rhaglen y bwriedir iddynt leihau'r perygl yng Nghymru a chynnwys datblygiadau arfaethedig a nodwyd o fewn y Cynlluniau Datblygu Lleol.


Wrth greu Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, mae angen i'r data a gaiff eu cynnwys fod yn gadarn ac yn gywir ac mae angen i'r broses fod yn ddigon hyblyg i gael ei diweddarau'n rheolaidd wrth i wybodaeth newydd a gwell ddod i'r amlwg. Gofynnwyd p'un a yw'r defnydd o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is fel blociau adeiladu ar gyfer y mynegai yn addas oherwydd amrywioldeb ardaloedd.

Awgrymwyd y dylai'r Mynegai Perygl Llifogydd roi rhywfaint o ystyriaeth i'r effeithiau ar seilwaith hanfodol a cholledion economaidd gan gynnwys eiddo masnachol a thir amaethyddol o ran cynhyrchu bwyd yn ogystal â'r perygl i fywyd ac eiddo preswyl. Awgrymodd un ymatebwr y dylid ystyried cymunedau nad ydynt o bosibl yn wynebu perygl llifogydd ond y gall llifogydd gael effaith andwyol arnynt, er enghraifft, pan gaiff prif ffyrdd eu cau a, thrwy hynny, ynysu cymunedau a all gael effaith gymdeithasol ac economaidd sylweddol.

Ymhlith y sylwadau eraill a gyflwynwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn roedd y canlynol:

- Pryderon o ran y goblygiadau ar gyfer yswiriant cartref lle nad yw eiddo penodol yn agored i lifogydd ond ei fod o fewn ardal 'mewn perygl' ehangach.
- Dylid ystyried amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol a lle nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylid gwneud hynny fel mater o flaenoriaeth.
- Pryderon cyn cyflwyno'r Rhaglen Cyllid Arloesol arfaethedig a'r gwahaniaethau posibl o ran y meini prawf ar gyfer asesu cynlluniau posibl.
- Mae diffyg data cywir am y graddau y caiff tir amaethyddol ei golli yn atal penderfyniad cywir a chynhwysfawr ar y canlyniadau llawn yn y broses dadansoddi perygl.

Cwestiwn 4 - A ydych yn cytuno y dylai Mynegai Perygl Llifogydd barhau i fod yn ddangosydd lefel uchel o risg cyfunol ond y dylid caniatáu i fodelu llifogydd lleol gael ei ddefnyddio i gefnogi tystiolaeth mewn ceisiadau?



Ffigur 3: Ymatebion i gwestiwn 4 y dylai'r Mynegai Perygl Llifogydd barhau i fod yn ddangosydd lefel uchel o risg cyfunol ond y dylai ganiatáu i fodelu llifogydd lleol gael ei ddefnyddio

Darparodd 28 o'r ymgynghoreion ymateb cytuno/anghytuno i'r cwestiwn a ofynnwyd o ran p'un a ddylai'r Mynegai Perygl Llifogydd barhau i fod yn ddangosydd lefel uchel o risg cyfunol tra'n caniatáu i fodelu llifogydd lleol gael ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau. O'r rheini a ymatebodd, roedd 27 yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn ac roedd un ymatebwr yn anghytuno.

Y farn gyffredinol oedd ei bod yn hanfodol defnyddio dulliau modelu a gwybodaeth leol fel rhan o'r broses asesu ceisiadau, lle bo dulliau a gwybodaeth o'r fath ar gael. Mae angen defnyddio'r data gorau sydd ar gael fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn darparu gwell cywirdeb o ran peryglon a gwell capasiti i ragweld costau lleihau peryglon. Bydd defnyddio data a dulliau modelu lleol yn darparu data amser real ac mae'n debygol o annog cymunedau lleol i gefnogi'r rhaglen gyffredinol a helpu i asesu camau gweithredu amgen i reoli perygl megis amddiffynfeydd ar gyfer eiddo unigol, gwell rhybuddion a gwydnwch. Gall gwybodaeth leol hefyd ddarparu gwybodaeth am leoliad a chyflwr amddiffynfeydd presennol.

Mae'r mynegai yn gofyn am gysondeb ar lefel Cymru gyfan er mwyn gallu ystyried lleoliadau mewn perygl ar sail tebyg at ei debyg. Bydd angen dulliau modelu a dadansoddi lleol er mwyn sicrhau bod peryglon lleol wedi'u deall yn llawn ac er mwyn helpu i werthuso opsiynau rheoli perygl yn unol â'r canllawiau arfarnu cenedlaethol cyson. Nodwyd y mater o asesu cynlluniau lle mai dim ond un

ffynhonnell perygl llifogydd sy'n effeithio arnynt fel enghraifft lle y mae gwybodaeth leol yn bwysig.

Mae darparu data llifogydd hanesyddol hefyd yn ddefnyddiol er mwyn cefnogi ceisiadau yn enwedig lle y bydd yn profi'n fwy costeffeithiol na chynhyrchu gwaith modelu llifogydd ychwanegol

Yn ogystal â data lleol, mae ffermwyr a rheolwyr tir eraill mewn ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef o lifogydd yn cadw gwybodaeth leol a thystiolaeth anecdotaidd yn ogystal ag arferion rheoli yr awgrymwyd y dylid eu cynnwys o fewn y setiau data a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Mae gan y bobl sy'n rheoli'r tir wybodaeth fanwl am batrymau llifogydd, uchafbwyntiau llifogydd a llifoedd ac maent yn meddu ar wybodaeth sy'n seiliedig ar flynyddoedd lawer o brofiad.

Er bod cryn dipyn o gytundeb o ran defnyddio dulliau modelu llifogydd lleol, codwyd nifer o bryderon/cwestiynau:

- Byddai gwaith modelu ychwanegol yn cynyddu cost y PAR, yn cynyddu oes y prosiect, yn arafu'r broses gwneud cais ac yn creu gwaith ychwanegol i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i'r cynlluniau llai.
- Roedd angen eglurhad o ran sut y ceid gafael ar gyllid ar gyfer gwaith modelu llifogydd lleol.
- Mae angen ymgymryd â gwaith manylach er mwyn asesu'r peryglon yn gywir lle mae gwybodaeth leol yn nodi lefel uwch o berygl na'r hyn a nodir gan y Mynegai Perygl Llifogydd.
- Mae angen eglurder o ran y meini prawf a gâi eu hystyried wrth asesu'r dystiolaeth leol a ddarperir i gefnogi cais.
- Mae effeithiau llifogydd ar eiddo preswyl yn amlwg ar unwaith, ond gallai effaith hirdymor colli safle diwydiannol allweddol gael effaith lawer mwy ar gymuned.
- Os nodir ardaloedd ar fapiau fel ardaloedd sy'n wynebu'r Perygl Naturiol Mwyaf, heb addasiadau megis amddiffynfeydd presennol na data lleol ar amllder llifogydd, mae'n debygol o danseilio hyder y cyhoedd yn y mapio.
- A fyddai'r mapio ar gyfer y Mynegai Perygl Llifogydd yn dangos yr ardaloedd sy'n wynebu'r Perygl Naturiol Mwyaf yn cael eu defnyddio i geisio atal gwaith datblygu?
- Nid yw gwybodaeth leol a thystiolaeth leol am lifogydd hanesyddol yn ystyried newidiadau megis cynnydd yn lefel y môr, patrymau glaw a'r cynnydd o ran digwyddiadau eithafol. Gofynnwyd sut y câi hyn ei ystyried wrth lunio'r mynegai.
- Yn gyntaf, byddai'r mynegai newydd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Rheoli Perygl gyfiawnhau eu cynnig yn y dull arferol h.y. costau a buddiannau, buddiannau lluosog ond gallai hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod ddadbrofi'r mynegai cenedlaethol sy'n cynyddu amser a chost unrhyw gynnig.

Awgrymodd yr ymatebwr a anghytunodd y dylid defnyddio'r Mynegai Perygl Llifogydd fel dangosydd lefel uchel ynghyd â gwaith modelu llifogydd lleol i gefnogi ceisiadau y dylid datgan y manylion o ran sut y caiff y mynegai ei ddatblygu a'i ddefnyddio gyda'r manylion hynny yn ymdrin â'r pryderon y gallai mentrau a phrosiectau gael eu cyfyngu i raglenni mawr ar draul mesurau llai o faint ond mwy cost-effeithiol. Yn ogystal, nodwyd y dylid defnyddio dangosyddion lefel uchel ar gyfer perygl llifogydd yn seiliedig ar ddata a systemau mapio Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru gan ofyn a oedd angen cronfa ddata arall onid yw'n defnyddio setiau data

estynedig ac wedi'i hategu gan ddata a gwybodaeth dechnegol gadarn. Nodwyd hefyd nad yw'r Mynegai Perygl Llifogydd arfaethedig presennol yn cyfeirio at Fapiau Cyngor Datblygu a bod angen egluro sut y cânt eu hystyried/defnyddio. Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu yn llywio'r broses o ystyried ceisiadau cynllunio a'r cynllun datblygu statudol; caiff hyn oblygiadau ar ddosbarthu twf dros gyfnod o 15 mlynedd.



Ffigur 4: Gwaith lliniaru llifogydd, Rhiwbeina, Caerdydd



Ffigur 5: Cynllun Lliniaru Llifogydd Cwm Tawe Isaf (Llun drwy garedigrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru)

Cwestiwn 5 - A oes gennych enghreifftiau lle mae llifogydd wedi digwydd dro ar ôl tro mewn lle a ddangosir ar hyn o bryd fel lle gyda pherygl llifogydd isel?

Oes	4
Nac oes	15
Ddim yn siŵr	5
Ni roddwyd ymateb	10

Dim ond pedwar o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn a roddodd ymateb cadarnhaol o ran p'un a oedd ganddynt unrhyw enghreifftiau lle mae llifogydd wedi digwydd dro ar ôl tro mewn lle a ddangosir ar hyn o bryd fel lle â pherygl llifogydd isel. Nid oedd 15 o ymatebwyr wedi gweld llifogydd o'r fath ac roedd 15 arall naill ai'n ansicr neu ni roddwyd ymateb ganddynt.

Rhoddodd dau awdurdod lleol enghreifftiau o leodedd o'r fath.

Enghreifftiau a ddarparwyd gan gyngor Sir Fynwy:

- Gall Tyndyrn ddioddef llifogydd llanwol sawl gwaith y flwyddyn, ac mae'n cynnwys hefyd gymysgedd o eiddo masnachol a phreswyl, ac yn peri pryder sylweddol o ran seilwaith gan mai dyma'r prif lwybr at aneddiadau yn y rhan hon

o ddyffryn Gwy, ond hyd yn hyn nid yw wedi llwyddo i gyrraedd trothwy cost a budd er mwyn gwarantu unrhyw amddiffynfeydd.


- Mae gan Wastatiroedd Cil-y-coed ddwysedd eiddo preswyl isel gydag ardaloedd sylweddol o dir amaethyddol, y mae'r rhan fwyaf ohono yn SoDdGA neu'n ddynodiadau tebyg. Yn gyffredinol, byddai llifogydd o'r môr yn yr ardal hon yn flaenoriaeth isel o ran dull gweithredu'r Mynegai Cenedlaethol gan fod y nifer yr effeithid arnynt yn isel a bod gwerthoedd tir amaethyddol yn isel. Fodd bynnag, byddai llifogydd yn yr ardal hon yn gatastroffig i economi Cymru oherwydd yr effaith ar seilwaith. Byddai llifogydd yn effeithio ar yr M4 a'r brif reilffordd rhwng De Cymru a Llundain gan beri iddynt gau, fwy na thebyg, gan gynnwys Twnnel Hafren. Byddai toriadau tebygol hefyd i gyflenwadau pŵer a nwy a chysylltiadau telathrebu a dyma brif lwybrau seilwaith y gwasanaethau hyn sy'n gwasanaethu De Cymru. Mae hyn o bwysigrwydd cenedlaethol ond fwy na thebyg y byddai gan yr ardal sgôr isel ar y Mynegai Cenedlaethol.

Roedd sylwadau pellach a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg dealltwriaeth y caiff rhai ardaloedd eu dynodi fel ardaloedd llifogydd perygl isel er mwyn gallu rheoli'r perygl llifogydd rhanbarthol yn well, ond weithiau gwneir penderfyniad o'r fath heb ymgynghori â rhanddeiliaid
- Mae sawl lleoliad lle mae dŵr wyneb ffo yn effeithio ar eiddo unigol ond ni chânt eu nodi fel lleoliadau mewn perygl ar y mapiau presennol
- Enghreifftiau o lifogydd yn digwydd mewn ardal lle ceir amddiffynfeydd a nodwyd yn ystod gwaith modelu llifogydd, ond a fethodd yn ystod llifogydd dilynol
- Ardal yn rhan isaf Aberteifi a restrwyd fel rhif 200 ar y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl ond sydd wedi dioddef llifogydd deirgwaith ers mis Hydref 2012. Pryder y gallai Mynegai Perygl Llifogydd fethu ardal o'r fath sy'n darparu dangosydd lefel uchel o risg cyfunol
- Yn ymwybodol o broblemau lle y ceir llifogydd ar dir ac y gall y tir hwnnw barhau o dan ddŵr am gyfnodau sylweddol o amser. Pryder na fyddai'r Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol yn cydnabod nac yn blaenoriaethu'r ardaloedd hyn yn ddigonol. Ni ddylid tybio y gellir aberthu tir amaethyddol at ddibenion storio llifogydd
- Yn ogystal â llifogydd, yn ymwybodol bod tir yn cael ei golli o ganlyniad i erydu glannau afonydd
- Gall ardaloedd cymharol newydd o lifogydd mynych ddigwydd pan gaiff system ddraenio sy'n bodoli eisoes ei rhwystro neu lle y bydd datblygiad newydd wedi creu problemau nas rhagwelwyd

Cwestiwn 6 - A ydych yn cytuno y dylai gwybodaeth sy'n ymwneud ag amddiffynfeydd gael ei heithrio o'r Mynegai Perygl Llifogydd?

Cytuno'n gryf	2
Cytuno	6
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	5
Anghytuno	12
Anghytuno'n gryf	6
Ni roddwyd ymateb	3



Ffigur 6: Ymatebion i gwestiwn 6 sy'n ymwneud ag eithrio amddiffynfeydd o'r Mynegai Perygl Llifogydd

O ran y cwestiwn sy'n ymwneud ag eithrio amddiffynfeydd o'r Mynegai Perygl Llifogydd, roedd 18 o ymatebwyr yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y dylid eithrio amddiffynfeydd o'r Mynegai Perygl Llifogydd a dim ond wyth oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf. Ni ddarparodd yr wyth a oedd yn weddill unrhyw ymateb neu cafwyd ymateb yn nodi 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno'.

Roedd llawer o'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cwestiwn hwn o'r farn y dylid cynnwys data am amddiffynfeydd o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd cychwynnol ac y dylai hyn nid yn unig gynnwys lleoliad yr amddiffynfeydd ond y dylid cynnwys hefyd eu cyflwr, eu hoes weddilliol a pha mor agored y maent i niwed. Awgrymwyd hefyd y dylid cofnodi'r gwaith cynnal a chadw parhaus a wneir arnynt ynghyd â thynnu sylw at unrhyw amddiffynfeydd y bwriedir rhoi'r gorau i'w cynnal. Bydd cynnwys data o'r fath yn golygu y gellir gwerthuso peryglon a blaenoriaethau mewn ffordd fwy hyddysg ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol. Os caiff y Mynegai hwn ei gyhoeddi, drwy eithrio amddiffynfeydd, nid yw'r cyhoedd yn debygol o gael argraff realistig o'r peryglon a wynebier ganddynt. Nid ydynt ychwaith yn debygol o ddeall y rheswm dros hepgor amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes o'r model. Os bydd y ddogfen yn ddogfen gyhoeddus, bydd y cyhoedd am weld ble y mae gwaith yn mynd rhagddo a pha waith.

Dylai cyflwr yr amddiffynfeydd fod yn rhan bwysig o'r fformiwla ar gyfer pennu lefel y perygl. Awgrymwyd gan fod y cyflwr yn dirywio dros amser neu eu bod yn cael eu difrodi, y dylid diweddarau elfen o'r fformiwla er mwyn adlewyrchu'r perygl cynyddol, pan gaiff yr amddiffynfa ei huwchraddio, wedyn caiff y perygl is ei adlewyrchu yn y mynegai.

Roedd cryn dipyn o bryder y gallai data amddiffynfeydd rhag llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol o'r Mynegai Perygl Llifogydd dargedu buddsoddiad tuag at ardaloedd y mae eisoes ganddynt amddiffynfeydd digonol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda ac osgoi'r ardaloedd y dangosir yn barhaus eu bod yn gymunedau sy'n wynebu perygl uchel ac sydd o bosibl yn denu cyfrannau mawr o gyllid er gwaethaf y ffaith bod amddiffynfeydd ar waith yno eisoes. Amcan buddsoddiadau yw lleihau'r perygl llifogydd i gymunedau, felly bydd cynlluniau sydd wedi'u cwblhau yn lleihau'r perygl. Heb gynnwys y wybodaeth hon, bydd y mynegai yn adnodd sefydlog a gallai'r cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf barhau ar y brig er gwaethaf y ffaith y buddsoddiwyd yn ddigonol ynddynt eisoes.

Gofynnodd un ymatebwr sut y câi cyllid ei ddyrannu o dan y rhaglen pe byddai ardaloedd perygl uchel yn parhau ar y Mynegai ar ôl cwblhau gwaith ataliol. O ran y Mynegai Perygl Llifogydd, awgrymwyd y dylid rhoi blaenoriaeth uwch i ardal a ddiogelir drwy fân waith cynnal a chadw rheolaidd nag ardal ag amddiffynfeydd a adeiladwyd yn ddiweddar na fydd angen rhagor o gyllid arnynt yn y byrdymor.

Mewn ardaloedd lle y caiff cynlluniau eu gweithredu, bydd risg weddilliol i eiddo sy'n agored i niwed bob amser a gallai'r dull gweithredu hwn ddarparu cyllid i ardaloedd lle mae angen mwy o waith i godi ymwybyddiaeth.

Un awgrym a gyflwynwyd oedd y dylid rhoi sgôr ar wahân i amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes wrth ddatblygu'r Mynegai Perygl Llifogydd Cenedlaethol, yn debyg i'r ffordd a gynigiwyd ar gyfer ymdrin ag erydu arfordirol.

Nododd nifer o ymatebwyr fod angen coladu'r wybodaeth gyfredol a ddelir ar amddiffynfeydd fel mater o frys er mwyn osgoi sefyllfa lle y pennir risg uwch na'r lefel sy'n briodol i ardaloedd nad ydynt yn wynebu perygl o lifogydd gan fod ganddynt amddiffynfeydd digonol a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae cynnwys y wybodaeth hon ar gam diweddarach yn arafu'r broses ariannu. Nodwyd fod dyletswydd ar bob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol i Gynnal Cofrestr o dan Adran 21 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac felly y dylai'r wybodaeth angenrheidiol fod ar gael yn brydlon. Fodd bynnag, codwyd pryder na fyddai'r dull o ddatblygu'r cofnodion a'r cofrestrau hyn ar gyfer amddiffynfeydd o bosibl yn unffurf ar draws pob Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol gan olygu y byddai'n anodd cofnodi data allweddol mewn ffordd gyson.

Cafwyd rhai sylwadau gan ymgynghoreion ynghylch y ffaith bod data am amddiffynfeydd wedi'u cynnwys o fewn Mapiau Cyngor Datblygu, TAN15 a gwybodaeth arall sydd ar gael i'r cyhoedd ac felly er mwyn sicrhau cysondeb â pholisïau a mapiau eraill Llywodraeth Cymru y dylid eu cynnwys fan hyn.

Fodd bynnag, nodwyd er bod presenoldeb amddiffynfeydd rhag llifogydd yn wybodaeth bwysig, y gall goblygiadau rhagamcanion newid yn yr hinsawdd effeithio ar eu heffeithiolrwydd parhaus a'r angen i fuddsoddi yn y dyfodol.

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno y dylid eithrio'r wybodaeth am amddiffynfeydd o'r Mynegai Perygl Llifogydd, roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod y wybodaeth hon yn bwysig ar lefel leol ond y dylid ei defnyddio fel y cyfryw i lywio arfarniadau. Cytunwyd i raddau helaeth nad yw'n briodol cynnwys data o'r fath ar hyn o bryd gan nad oes set data cenedlaethol cyson ar leoliad a chyflwr amddiffynfeydd cyfredol. Fodd bynnag, pan gaiff y wybodaeth hon ei rhyddhau, gall fod yn briodol ei chynnwys. Roedd yr ymatebwyr hyn yn cytuno bod map o'r amddiffynfeydd rhag llifogydd cyfredol a'u cyflwr yn hanfodol ac y dylid cwblhau'r gwaith hwn cyn gynted ag y bydd data dibynadwy ar gael.


Nododd un ymatebwr er ei bod yn ymddangos y byddai'n synhwyrol eithrio amddiffynfeydd sy'n bodoli eisoes, fod hynny yn golygu y dylid ystyried methiant sydyn amddiffynfeydd yn ystod llifogydd/digwyddiad arfordirol.

Codwyd pryder nad yw'n debygol y bydd lefel gyson o fanylder o ran amddiffynfeydd rhag llifogydd dŵr wyneb.

Os caiff gwybodaeth am amddiffynfeydd ei heithrio o'r Mynegai Perygl Llifogydd, pan gaiff y mynegai hwn ei gyhoeddi, bydd angen cyhoeddi negeseuon clir hefyd i egluro nad yw'n cynrychioli'r perygl gwirioneddol neu'r perygl cyfredol.

Cwestiwn 7 - A ydych yn cytuno â'r dull o ymdrin â pherygl Erydu Arfordirol ac y dylid ei farcio ar wahân i berygl llifogydd?

Cytuno'n gryf	4
Cytuno	18
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	6
Anghytuno	1
Anghytuno'n gryf	0
Ni roddwyd ymateb	5



Ffigur 7: Ymatebion i gwestiwn 7 o ran y dull arfaethedig o ymdrin â pherygl Erydu Arfordirol ac y dylid ei farcio ar wahân i berygl llifogydd

Roedd 65% o'r ymatebion (22) naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r dull o ymdrin â pherygl erydu arfordirol ac y dylid ei farcio ar wahân i berygl llifogydd. Dim ond 3% (un ymatebwr) oedd yn anghytuno â'r datganiad hwn.

Gwnaeth yr ymatebwyr sylwadau o ran y ffaith mai prosesau ar wahân yw'r prosesau hyn gydag effeithiau gwahanol a all fod yn barhaol ac yn amhosibl eu gwrthdroi (e.e. clogwyni yn syrthio) yn achos erydu arfordirol neu'n effeithiau dros dro yn achos llifogydd, gall y ddau digwydd ar yr un pryd neu ar wahân. Gall nifer yr eiddo yr effeithir arnynt gan brosesau erydu arfordirol fod yn is na'r rheini yr effeithir arnynt gan lifogydd ond mae'r effeithiau yn fwy parhaol. Mewn rhai achosion, mae'n bosibl na fydd eiddo y nodir ei fod mewn perygl o ganlyniad i erydu arfordirol byth yn wynebu perygl o ganlyniad i lifogydd. Awgrymwyd bod angen egluro'r gwahaniaeth rhwng erydu arfordirol graddol y gellir ei wrthdroi ac achosion o erydu mwy parhaol ar ffurf colli tir. Weithiau, caiff llifogydd eu hachosi gan gyfuniad o weithredoedd y môr, afonydd a seilwaith, a byddai mynegai ar wahân ar gyfer pob ffynhonnell yn arwain at well dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ar lawr gwlad.

Nododd un ymateb er y dylid nodi'r ddwy broses ar wahân, y bydd angen rhoi ystyriaeth sylweddol i erydu arfordirol yn y Mynegai gan y bydd prosesau erydu'r blaendraeth yn cynyddu effaith y tonnau ac o bosibl yn tanseilio unrhyw amddiffynfeydd sydd eisoes yn bodoli.

Yn debyg i'r ymatebion a gafwyd i gwestiynau cynharach, codwyd pryder y gallai cynnwys erydu arfordirol wyro a goramcangyfrif y perygl tuag at ranbarthau arfordirol, gan felly roi Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol mewndirol o dan anfantais. Awgrymwyd y dylid defnyddio cyllideb ar wahân i ymdrin ag erydu arfordirol.

Codwyd pryder o ran p'un a oedd y mapiau erydu arfordirol presennol yn ddigon cywir i ddarparu data dilys. Proses gynnil yw erydu arfordirol a dim ond drwy fonitro'r arfordir dros gyfnod estynedig o amser er mwyn canfod tueddiadau hirdymor y gellir ei fesur. Bydd y tueddiadau hyn yn nodi lle y mae tir yn fwyaf tebygol o gael ei golli yn y dyfodol. Nodwyd bod ein dealltwriaeth o'r perygl erydu arfordirol yng Nghymru yn gyfyngedig a bod angen ymgymryd â gwaith pellach. Caiff ein dealltwriaeth o'r perygl erydu arfordirol ei lywio gan brosiect Rheoli'r Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol (NCERM), sef set ddata cymharol newydd ac anaeddfed. Mae'r data hyn ar lefel uchel ac nid yw bob amser yn gywir. Nodwyd mewn ymatebion nad yw NCERM yn ystyried erydu arfordirol lle yr ystyrir bod perygl llifogydd, felly bydd angen ei farcio ar wahân. Gan ei bod yn debygol y bydd ardaloedd lle mae erydu arfordirol a pherygl llifogydd yn broblem, nid yw'n debygol y bydd unrhyw waith blaenoriaethu erydu arfordirol ystyrlon yn bosibl gan ddefnyddio'r data presennol. Mae tir sy'n wynebu perygl o erydu a llifogydd yn wynebu perygl uwch o ystyried canlyniadau'r ddau; fodd bynnag, ni chaiff hyn ei gynnwys o fewn NCERM nac o fewn yr Asesiad Perygl Llifogydd Cenedlaethol. Awgrymwyd fod angen ymgymryd â gwaith mapio a modelu pellach mewn perthynas â pherygl erydu arfordirol ac y dylai NCERM lywio gwaith o'r fath er mwyn gwella ein setiau data cenedlaethol ar erydu arfordirol. Dylai unrhyw waith ymchwil o'r fath ystyried effaith newid yn yr hinsawdd ar gyfraddau erydu. Cyfeiriodd nifer o ymatebwyr hefyd at Gynlluniau Rheoli Traethlin a'r awgrym y dylid defnyddio data monitro a data a goledir wrth lunio'r cynlluniau hyn fwy. Dylai ymyriadau i reoli neu addasu i erydu arfordirol fod yn gyson â'r cyfeiriad teithio strategol a nodir mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebion at golli tir amaethyddol drwy erydu arfordirol y teimlwyd bod angen ei gynnwys o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd. Yng Nghymru, mae tir amaethyddol cynhyrchiol yn adnodd cyfyngedig a phan fydd clogwyni yn cilio o ganlyniad i erydu arfordirol, caiff hyn effaith barhaol ac andwyol ar fywoliaeth ac ar allbwn economaidd, gan gynnwys effaith ar gynhyrchu bwyd. Mae'n bosibl nad ydym yn llawn ddeall graddau'r tir amaethyddol a gollir o ganlyniad i erydu arfordirol ac felly na chaiff ei werthfawrogi o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd.

Cyflwynwyd awgrym i'w ystyried y dylai cynigion ar gyfer ymyriadau i reoli perygl llifogydd arfordirol ystyried y perygl o ran erydu arfordirol lleol ac i'r gwrthwyneb.

Nododd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn i farcio erydu arfordirol ar wahân y dylid rhoi dynodiad a phwysoliad uwch ychwanegol i ardaloedd lle ceir posibilrwydd cadarn o risg cyfun o lifogydd o'r môr ac o afonydd.

Nododd ymatebwyr eraill a oedd yn anghytuno i ryw raddau y dylid marcio'r perygl erydu arfordirol ar wahân mewn ardaloedd lle y gallai erydu arfordirol byrdymor a chyflym arwain at lifogydd, o bosibl drwy fethiant amddiffynfeydd caled sy'n bodoli eisoes, y dylid adlewyrchu'r perygl hwn yn y Mynegai Perygl Llifogydd gan y gallai'r perygl erydu arfordirol fod yn uniongyrchol berthnasol i'r perygl o lifogydd. Byddai hyn yn golygu y gellid gwneud penderfyniadau o ran p'un a all atal erydu arfordirol leihau'r perygl o lifogydd. Un awgrym a gyflwynwyd oedd y dylid gallu integreiddio asesiad ar y cyd mewn rhai ardaloedd daearyddol penodol megis aberoedd, ond yn gyffredinol y dylid ymdrin ag erydu arfordirol ar wahân.

Cwestiwn 8 - A ydych yn cytuno â'r egwyddorion a nodir am asesu risg o ffynonellau lluosog a sgorio yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is?

Cytuno'n gryf	2
Cytuno	15
Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	5
Anghytuno	5
Anghytuno'n gryf	4
Ni roddwyd ymateb	3

O blith yr ymatebwyr a roddodd ymateb cytuno/anghytuno i'r cwestiwn hwn yn yr ymgynghoriad, roedd 50% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf mai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is oedd yr unedau gofodol mwyaf priodol i'w defnyddio i asesu'r perygl o ffynonellau llifogydd lluosog. Roedd naw ymatebwr (28% o'r rheini a roddodd ymateb) yn anghytuno â hyn ac o'u plith, roedd pedwar yn anghytuno'n gryf â defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is.

O'r ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r cynnig i ddefnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is fel sail ar gyfer sgorio perygl llifogydd, roedd eu sylwadau ategol yn cynnwys y canlynol:

- Bydd gweithio o fewn Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn rhoi mwy o hyblygrwydd yn y tymor hwy i ddatblygu ac addasu'r Mynegai Perygl Llifogydd drwy ystyried datblygiadau lleol.
- Pobl ac eiddo yw'r flaenoriaeth gyda'r pwysoliad uchaf yn cael ei roi i'r rheini sydd o dan anfantais gymdeithasol ac economaidd.
- Mae angen ailasesu pob Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is yn rheolaidd gan ystyried datblygiadau, digwyddiadau llifogydd cofrestredig neu ganlyniadau llifogydd eithafol.
- Er bod y perygl i fywyd yn parhau'n flaenoriaeth, dylid gwerthuso ymyriadau posibl yn erbyn y meini prawf cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ehangach a dylid ystyried rhaglen Creu Cynefinoedd Arfordirol Cymru.

Er bod llawer o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig hwn, gwnaed nifer o sylwadau a chyflwynwyd nifer o bryderon. Roedd a wnelo rhai o'r prif faterion ag ymdrin â materion trawsffiniol lle mae effeithiau ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn rhychwantu ffiniau Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is a ph'un a oedd defnyddio ardaloedd o'r fath yn briodol o ystyried eu maint a'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Ymhlith y sylwadau a gafwyd roedd y canlynol:

- Efallai na chaiff ardaloedd llai lle ceir perygl uchel o fewn ardal ehangach eu nodi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle ceir llain arfordirol gul â thir serth y tu ôl iddi, sy'n nodwedd gyffredin o amgylch arfordir Cymru. Mewn ardaloedd gwledig, gallant eithrio pentrefi cyfan sy'n wynebu perygl uchel o fewn ardaloedd ehangach lle na cheir unrhyw berygl neu lle ceir perygl isel.
- Gallai coridor llifogydd llinellol drwy ddalgylch sy'n croesi Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lluosog effeithio ar yr un nifer o eiddo ag ardal fwy arwahanol wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn un Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is unigol, ond gallai ardal fwy arwahanol o lifogydd sgorio'n uwch na'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is cyfun.
- Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn rhy fawr i alluogi proses gyson ar gyfer asesu llifogydd o bob ffynhonnell o berygl llifogydd. Bydd asesiadau sy'n seiliedig ar ardal mor fawr wedi'u pwysoli tuag at lifogydd o brif afonydd a'r môr ac felly ni fyddant yn caniatáu asesiad gwrthrychol o ffynonellau llifogydd lleol sy'n effeithio ar lai na 50 eiddo ond sy'n wynebu perygl mwy rheolaidd o lifogydd.
- Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cynnwys o leiaf 400 o gartrefi - bydd defnyddio'r mesur hwn yn eithrio cymunedau gwledig llai a all fod yn wynebu perygl uchel iawn. Mae angen system ar gyfer nodi pocedi bach o'r fath yn ogystal ag ardaloedd mawr sy'n wynebu perygl
- Nid yw Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn ystyried y defnydd o'r tir/dalgylchoedd ac ati. Rhannwyd y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl yn ardaloedd mwy hydrin. Mae SMP2 wedi rhannu arfordir Cymru yn unedau rheoli. Dylid edrych ar y dewisiadau amgen hyn a rhoi rheswm dros beidio â'u mabwysiadu.
- Ceir amheuan o ran defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is oherwydd yr amrywioldeb rhwng ardaloedd. Mae Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is wledig â phoblogaeth wasgaredig yn cynnwys 1500 o gartrefi yn debygol o gwmpasu arwynebedd tir mwy o faint, gan ehangu o bosibl i fwy nag un dalgylch a pheryglon llifogydd gwahanol. Gallai hyn arwain at sefyllfa lle y byddai tai yn cael yr un sgôr, ond mewn gwirionedd, yn wynebu lefel wahanol o berygl llifogydd a/neu erydu arfordirol.

- Gall fod gan drefi mawr sawl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is sy'n ymwneud â'r un ffynhonnell llifogydd gan flaenoriaethu cyllid sawl gwaith o bosibl.

Yn debyg i'r ymatebion i rai o'r cwestiynau eraill, cafwyd pryder gan gymunedau cyfan gwbl fewndirol y byddai Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ag arfordir yn fwy tebygol o gael blaenoriaeth.

Er bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, nodwyd bod amrywiaeth o wybodaeth eisoes ar gael y gellid ei defnyddio o fewn FaCIP, y gellid ei defnyddio i symleiddio'r system flaenoriaethu ac ymdrin â'r ardaloedd sy'n wynebu'r perygl mwyaf gan gynnwys asesiadau perygl llifogydd rhagarweiniol, Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol a Chynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd.

Codwyd un pryder yn nodi nad defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is o bosibl yw'r raddfa fwyaf priodol o ran cyfathrebu â'r cyhoedd neu o ran annog trafodaethau lleol rhwng partneriaid rheoli risg ac awgrymwyd wrth i FaCIP gael ei ddatblygu, y gellid profi ardaloedd gofodol amgen ar gyfer rhai gweithgareddau penodol gan gynnwys cyfathrebu â'r cyhoedd.

Cafodd yr awgrym i wahodd perchenogion seilwaith i gyfrannu gwybodaeth o ran pa mor agored i niwed y mae eu hasedau groeso cynnes ac awgrymwyd y gellid ehangu hyn i gynnwys y gwasanaethau brys a datblygiadau diwydiannol sy'n agored i niwed (e.e. gweithfeydd cemegol, llosgyddion, safleoedd gwaredu gwastraff).

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau hefyd i gynnwys seilwaith cenedlaethol megis ffyrdd, rheilffyrdd a pheilonau o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd gan gymhwyso pwysoliad priodol i bob un o'r elfennau seilwaith ychwanegol. Er mai'r perygl i fywyd pobl yw'r flaenoriaeth uchaf, nodwyd bod angen ystyried hefyd sut y gellir diogelu gwasanaethau sy'n hanfodol i fywyd megis cyflenwadau dŵr yfed ac fel y cyfryw, dylid rhoi pwysoliad uwch i'r gwasanaethau hyn. Gallai colli unrhyw seilwaith hanfodol fygwth lles miloedd o bobl. Ochr yn ochr â'r perygl i fywyd, gall llifogydd arwain at sefyllfaoedd lle y bydd pobl yn methu dianc o'u ceir/trenau mewn ardaloedd lle ceir llifogydd, colli gwasanaethau telathrebu/pŵer a phroblemau i'r gwasanaethau achub a'r gwasanaethau brys. Nodwyd hefyd bwysigrwydd diogelu cyfanrwydd argaeau ac y dylid rhoi blaenoriaeth i'r poblogaethau i lawr yr afon.

Gofynnodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig hwn p'un a oedd Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn raddfa briodol ac roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys dull yn seiliedig ar ddalgylchoedd cychwynnol er mwyn sicrhau cysondeb â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a Bil yr Amgylchedd neu raddfa gymunedol. Nodwyd nad yw defnyddio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yn cyfateb i unrhyw raddfeydd a ddefnyddir yn gyffredinol yng Nghymru ar gyfer gweithgareddau rheoli perygl llifogydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio graddfa dalgylchoedd ac awdurdodau lleol yn defnyddio graddfa gymunedol neu wardiau.

O ran grwpio Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is, roedd pryder y gallai grwpio ardaloedd tebyg at ei gilydd yn seiliedig ar sgoriau ardaloedd unigol labelu'r

ardaloedd hynny fel mannau trafferthus posibl ac y gallai hyn effeithio ar gostau yswiriant a gwerthoedd eiddo.

Cydnabuwyd gan ymatebion ni waeth pa ddull gweithredu a roddir ar waith, y gall fod angen rhywfaint o waith adolygu yn erbyn gwybodaeth leol.

Cwestiwn 9 - A oes gennych unrhyw sylwadau pellach am gyflwyno neu ddatblygu'r Mynegai Perygl Llifogydd arfaethedig?

Nododd ymatebion i'r cwestiwn hwn fod angen mwy o eglurhad yn y meysydd canlynol:

- Pwy sy'n mynd i ddatblygu, rheoli a diweddarau'r Mynegai Perygl Llifogydd. Wrth i fwy o ddata gael eu rhyddhau, dylai'r sgoriau allu blaenoriaethu perygl yn fwy cywir.
- Sut y caiff ardaloedd eu grwpio, yn arbennig os ydynt wrth ymyl ei gilydd - pryderon y gall fod yn anodd cael partiön ynghyd lle ceir canlyniad isel, ond perygl sylweddol.
- Pa effaith a gaiff y sgoriau erydu arfordirol ar y mynegai perygl llifogydd ar gyfer ardaloedd arfordirol.
- Sut yr ymdrinnir â'r perygl llifogydd o gronfeydd dŵr neu a ymdrinnir â'r perygl hwnnw?
- Sut y bydd mapiau'r mynegai llifogydd yn berthnasol i ffynonellau eraill na chânt eu cofnodi o bosibl fel rhan o'i fethodoleg
- Sut y byddai goblygiadau polisi ar lefel genedlaethol ac ar lefel leol yn effeithio ar fuddsoddiadau yn y dyfodol ac ar flaenoriaethu cysylltiedig.
- A oes digon o arian i ddatblygu'r 5% neu'r 30 o ardaloedd uchaf ac os nad oes, sut y cânt eu blaenoriaethu o fewn y grwpiau hynny.

Yn debyg i ymatebion blaenorol, nodwyd pryder unwaith eto ynghylch cynnwys erydu arfordirol ac mewn rhai achosion, llifogydd arfordirol, o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd, yn enwedig gan yr awdurdodau cyfan gwbl fewndirol a oedd o'r farn y byddai hyn yn gwyro ac yn goramcangyfrif peryglon tuag at ranbarthau arfordirol. Nodwyd hefyd fod problemau yn gysylltiedig â chyfuno llifogydd afonol, llifogydd dŵr wyneb a llifogydd arfordirol o ganlyniad i'r cyfuniad o senarios tebygol amrywiol a'r effeithiau rhwng amrywiol fathau o beryglon.

Wrth greu'r Mynegai Perygl Llifogydd, nodwyd bod angen mwy o gydweithredu a rhannu data rhwng yr amrywiol asiantaethau er mwyn nodi peryglon a chyflwyno atebion, felly dylai Awdurdodau Rheoli Perygl fod yn rhan o'r broses o lunio'r Mynegai. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys arbenigedd gan dirfeddianwyr fel rhan o'r broses a all nodi ardaloedd lleol lle ceir perygl llifogydd a mesurau i liniaru canlyniadau llifogydd gan gynnwys materion rheoli tir a all helpu i leihau perygl llifogydd i gymunedau i lawr y dalgylch. Bydd Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn nodi eu hardaloedd perygl uchel eu hunain drwy eu strategaethau lleol ac felly mae angen i'r Mynegai Perygl Llifogydd fod yn gyson â'r rhain.

Cyflwynwyd nifer o sylwadau a phryderon o ran y Mynegai Perygl Llifogydd a barn y cyhoedd amdano. Mae angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r rhagdybiaethau a'r cyfyngiadau o fewn y setiau data. Mae angen cyfleu unrhyw Fynegai Perygl

Llifogydd sydd ar gael i'r cyhoedd yn glir a galluogi'r cyhoedd i fod yn hyderus bod y wybodaeth yn gyson ac y gallant herio'r sgoriau perygl. Dylai hefyd alluogi cymunedau i ddeall pa weithgareddau sydd eisoes ar waith i reoli'r peryglon sy'n bresennol. Mae cyflwyno'r Mynegai Perygl Llifogydd hefyd yn cynnig cyfle i godi ymwybyddiaeth leol o faterion ac i gynyddu diddordeb mewn peryglon llifogydd lleol.

Unwaith eto, gwnaed sylwadau am gynnwys amddiffynfeydd o fewn y Mynegai Perygl Llifogydd ac awgrymwyd y dylid nodi lefel y diogelwch o amddiffynfeydd presennol dros ardaloedd y cynigir y dylid eu dosbarthu fel ardaloedd perygl uchel er mwyn dangos yr ardaloedd sydd mewn "perygl gwirioneddol". Wrth wneud hynny, byddai angen rhoi gweithdrefn arolygu safonol ar waith ar gyfer amddiffynfeydd er mwyn dosbarthu safon bresennol yr amddiffynfeydd. Codwyd pryder nad oes unrhyw gyfiawnhad dros labelu ardaloedd fel yr ardaloedd "sy'n wynebu'r perygl mwyaf yng Nghymru" gan mai bwriad y mynegai yw nodi trefn o ran yr "uchafswm perygl naturiol".

Cwestiwn 10. A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y broses ymgeisio?

Awgrymodd nifer o'r ymatebion fod angen eglurhad pellach ar y broses ymgeisio er mwyn ymdrin â'r canlynol:

- Diffiniad o'r termau:
 - "perygl mwyaf"— ai o ran graddfa (yr eiddo yr effeithir arnynt) neu o ran cyfnod dychwelyd y perygl
 - "blaenoriaeth genedlaethol" - a yw hyn yn blaenoriaethu llifogydd mewnol i eiddo, a fydd yn cynnwys cysylltiadau rheilffordd a thrafnidiaeth hanfodol?
 - "ymyriad cost isel"
- Eglurder o ran yr ymrwymiad ariannol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud tuag at gynllun cyn i'r broses ymgeisio ddechrau, er enghraifft, cyfraddau grant ar gyfer cynlluniau penodol a ph'un a fyddai grantiau ar gael dros gyfnod hwy
- Sut y caiff heriau i drefn y Mynegai Perygl Llifogydd eu hariannu? A oes proses ar gyfer apelïadau?
- Sut y caiff ymchwiliadau pellach i berygl llifogydd eu hariannu?
- Mwy o hyblygrwydd a chyfnod ariannu hwy ar gyfer cynllun a all gymryd sawl blwyddyn i'w roi ar waith
- Sut yr ymdrinnir â rhaglenni monitro'r arfordir?
- Bydd angen diweddarau'r Mynegai Perygl Llifogydd yn rheolaidd, ond beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol.
- Pwy fydd yn arwain pan fydd cynlluniau yn ymdrin â llifogydd o ffynonellau lluosog?
- Beth yw'r trothwy ar gyfer cynlluniau costau isel? Beth yw'r ffin ar gyfer ardaloedd blaenoriaeth cenedlaethol uchel ac isel?
- Beth fydd yn digwydd os na all awdurdod lleol ddarparu'r cyllid ategol ar gyfer prosiect blaenoriaeth uchel?

Bydd amserlen ariannu a dyrannu genedlaethol yn gwella'r trefniadau cynllunio a rhaglennu ym maes rheoli perygl llifogydd yng Nghymru. Er y croesewir hyn yn

gyffredinol, codwyd nifer o bryderon fod y broses ymgeisio arfaethedig yn rhy gymhleth a biwrocataidd ac mae angen ystyried proses symlach, yn enwedig o ran y fformiwla ar gyfer dadansoddi costau a buddiannau. Codwyd pryder ynghylch y gofyniad am geisiadau ar wahân ar gyfer modelu, adroddiadau dichonoldeb, PAR, datblygu dyluniadau ac adeiladau a fyddai'n creu proses hir ac yn golygu na ellir cyflwyno cynlluniau brys o fewn yr amserlenni priodol.

Nododd nifer o ymatebion bwysigrwydd sicrhau bod y broses ymgeisio yn ddigon hyblyg i wneud cais rhagweithiol am geisiadau ychwanegol os bydd angen gwneud hynny neu os caiff cyllid ychwanegol ei ryddhau. Bydd angen iddi hefyd fod yn hyblyg er mwyn ymateb yn gyflym i geisiadau ôl-ddigwyddiad ar gyfer gwaith brys ac i ymateb i achosion annisgwyl o oedi. Nodwyd y gall fod anawsterau wrth geisio sicrhau cysondeb â rhaglenni cyfalaf awdurdodau lleol felly bydd angen i'r broses ymgeisio fod yn hyblyg o ran darparu cyllid dros flynyddoedd ariannol gwahanol.

Nodwyd pryder y gallai'r amserlen flynyddol arwain at aneffeithlonrwydd o ran y gadwyn gyflenwi ac o ran penderfynu ar geisiadau (roedd chwe mis ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau yn ymddangos yn ormodol). Argymhellwyd y byddai o leiaf ddau gylch blynyddol yn fwy priodol.

Nodwyd hefyd fod angen digon o amser o fewn yr amserlen rhwng adeg dyrannu'r gyllideb a dechrau gwaith a gwariant (e.e. ar gyfer caffael a rhoi telerau dylunio ac adeiladu'r prosiect ar waith)

Argymhellwyd y dylid cynnwys Awdurdodau Rheoli Perygl fel rhan o'r broses ymgeisio a'r amserlen ac awgrymwyd y byddai sefydliadau seilwaith cenedlaethol o bosibl yn awyddus i gyflwyno sylwadau ar y ceisiadau.

Roedd sylwadau eraill i'w hystyried a gafwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen craffu'n dechnegol ar geisiadau am arian a'u gwerthuso ar sail gyfartal gan swyddogion sy'n meddu ar yr arbenigedd a'r profiad technegol gofynnol.
- Mae angen ystyried refeniw yn ogystal â chyfalaf ar gyfer Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol er mwyn iddynt allu cael gafael ar gyllid refeniw i ddatblygu cynlluniau.
- Dylai gwaith dadansoddi costau/buddiannau gynnwys camau gweithredu amgen neu gamau gweithredu nad oes angen cyfalaf ar eu cyfer y gellid eu cymryd i liniaru risg.
- Dylid ystyried cyfraniad posibl y gymuned amaethyddol ac ymgysylltu â ffermwyr mewn perthynas â'r rhaglen a dangos ymyriadau arloesol o ran y broses ymgeisio
- Pryderon na chaiff ardaloedd sydd ar waelod y mynegai gyllid i ddangos lle mae'r Mynegai Perygl Llifogydd yn anghywir gan na chaiff seilwaith ei gynnwys. Rhagdybiaeth y caiff cyllid ei ddyrannu i ardaloedd perygl uchel, y mae gan lawer ohonynt amddiffynfeydd ar waith yn barod a, thrwy hynny, felly wahaniaethu yn erbyn yr ardaloedd ar waelod y mynegai lle na cheir amddiffynfeydd
- Dylid rhoi proffil uwch i dwristiaeth gan gynnwys mynediad arfordirol a chysylltedd rhwng pentrefi arfordirol.
- Pryder ynghylch cynnal a chadw argloddiau prif afonydd ac argloddiau arfordirol. Mae angen blaenoriaethu adnoddau ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Dylai FaCIP bennu amcan i sicrhau bod rhaglen cynnal refeniw gadarn ar waith

- Dylai'r rhaglen gynnwys cysylltiadau â pholisïau a chynigion y cynlluniau datblygu a fabwysiedir ynghyd â'r Fframweithiau Datblygu Cenedlaethol a'r Cynlluniau Datblygu Strategol sy'n dod i'r amlwg drwy'r Bil Cynllunio.



Ffigur 8: Difrod storm arfordirol i ardal glan môr Aberystwyth, Ionawr 2014

Cwestiwn 11 - A oes gennych unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am fwrdd y rhaglen neu lywodraethu Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir?

Roedd yr ymatebwyr yn cytuno bod Bwrdd Rhaglen yn hanfodol er mwyn sefydlu grŵp aml-asiantaeth i ddarparu ffordd dryloyw o asesu ceisiadau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y tebygolrwydd y bydd lefelau diddordeb uchel yn y rhaglen yn ystod y camau cynnar. Rhaid i drefniadau llywodraethu gynnwys cyfraniad democrataidd, fod yn dryloyw ac yn atebol a darparu esboniadau clir a chyson dros y penderfyniadau a wneir.

Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau yn datgan y dylid ystyried y trefniant llywodraethu sydd eisoes ar waith yng Nghymru ac y byddai'n fuddiol i drefniadau llywodraethu Bwrdd y Rhaglen gynnwys arbenigedd a phrotocolau cyrff sefydledig megis Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru a Bwrdd WEFO. Mae gan Rheoli Perygl Llifogydd Cymru eisoes brofiad o ymdrin â rhaglen gyfalaf Cyfoeth Naturiol Cymru. Awgrymwyd y gallai'r Bwrdd ymgymryd â rhai o gyfrifoldebau gwaith Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ac wrth wneud hynny y byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried rôl Rheoli Perygl Llifogydd Cymru yn y dyfodol. Mae angen ystyried yn ofalus sut y byddai Bwrdd Rhaglen FaCIP yn gweithredu ochr yn ochr â threfniadau llywodraethu sefydledig a chynlluniau dirprwyo ariannol o fewn pob Awdurdod Rheoli Perygl.

Cyflwynwyd awgrymiadau gan ymatebwyr yn nodi pobl a sefydliadau ychwanegol y gellid eu cynnwys ar y Bwrdd:

- Y sector amaethyddol gan gynnwys ffermwyr/tirfeddianwyr
- Severn Trent Water (sy'n gyfrifol am rannau helaeth o ogledd Powys)

- Cynrychiolwyr annibynol o'r sector (er enghraifft, arbenigwyr, academyddion, y sector preifat/ymgyngori).
- Undebau ffermwyr
- Y cyhoedd
- Gwleidyddion
- Perchenogion seilwaith strategol a thirfeddianwyr (yn arbennig o ran asesu buddiannau lluosog a allai ddeillio o'r cynigion)
- Rhanddeiliaid yr effeithir arnynt

Cytunwyd yn gyffredinol y bydd angen profiad technegol ar y Bwrdd er mwyn asesu cynlluniau posibl ac y dylai aelodau'r Bwrdd feddu ar ddealltwriaeth eang o faterion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy er mwyn gwneud cysylltiadau posibl a sicrhau buddiannau lluosog. Awgrymwyd hefyd y dylai'r Bwrdd ystyried Rhaglen Rheoli Asedau Dŵr Cymru er mwyn hyrwyddo trefniadau cydweithio posibl rhwng y ddwy ffynhonnell ariannu.

Cydnabuwyd er na ellir cynrychioli pob awdurdod lleol ar y bwrdd, y byddai'n briodol parhau â'r lefel gynrychiolaeth a geir ar Bwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ar hyn o bryd. Dylai'r Bwrdd gynrychioli pob Awdurdod Rheoli Perygl mewn ffordd gytbwys a darparu amrywiaeth o sgiliau sy'n cwmpasu profiad arfordirol, afonol a draenio tir.

O ran rôl y bwrdd, roedd y cyfrifoldebau a awgrymwyd yn cynnwys y canlynol:

- Derbyn ceisiadau am gyllid, craffu arnynt a'u cymeradwyo
- Sicrhau bod ceisiadau yn cyflawni'r canlyniadau gofynnol
- Cytuno ar ymatebion adferol i sicrhau y cyrhaeddir targedau ariannol cenedlaethol ac y cyflawnir canlyniadau
- Derbyn adroddiadau ar gynnydd a chyflwyno adroddiadau ar hyn i Lywodraeth Cymru
- Darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad ar fentrau o bwys cenedlaethol
- Hyrwyddo trefniadau ar gyfer rhannu arfer gorau.

Awgrymwyd hefyd y gallai'r Bwrdd hyrwyddo meysydd yr ystyriwyd bod angen cynllun blaenoriaeth arnynt, gallai hyn fod yn berthnasol lle nad oes parti arweiniol amlwg i roi cynllun ar waith.

Argymhellwyd y dylai'r bwrdd gyfarfod bob chwarter ac y dylid cyflwyno adroddiadau cynnydd misol. Yn ychwanegol at hyn, dylai'r Bwrdd gyflwyno adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau gan gynnwys adolygiad o fuddsoddiad gwirioneddol/arfaethedig, y wybodaeth ddiweddaraf am y Mynegai Perygl Llifogydd a'r perygl llifogydd cyffredinol yng Nghymru.

Gofynnodd un ymatebwr os bydd gan y bwrdd gwestiynau am ryw agwedd ar gais, a fydd yn rhaid aros tri mis i ystyried yr ymateb yn y cyfarfod nesaf neu a ellid dirprwyo rhai agweddau ar y broses ymgeisio i swyddogion os bydd y bwrdd wedi cytuno ar y cais mewn egwyddor?

Ymateb arall oedd nad oedd yn briodol parhau â'r bwrdd cyfredol ac awgrymwyd y dylid sefydlu bwrdd newydd gyda pheirianwyr cymwys a gweithredol (gan gylchdroi peirianwyr o awdurdodau lleol) a diwydiant ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth

Cymru i roi cyngor ar strategaeth. Gan mai strategaeth newydd yw'r mynegai perygl, teimlwyd nad oedd yn briodol parhau â'r bwrdd cyfredol.

Awgrymwyd hefyd y gallai fod angen ymgynghori pellach gan ganolbwyntio ar gylch gwaith y bwrdd a'r cyfansoddiad.

Cwestiwn 12 - A oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhoi gerbron?

Pan ofynnwyd am sylwadau pellach mewn perthynas â'r cynigion a gyflwynwyd yn y ddogfen ymgynghori hon, roedd a wnelo'r rhan fwyaf o'r sylwadau â materion ariannu, yn enwedig o ran ansicrwydd cyllid refeniw yn y dyfodol i awdurdodau lleol. Gan fod cyllidebau cyfalaf awdurdodau lleol yn lleihau a bod ansicrwydd ynghylch refeniw hirdymor, mae pryder ynghylch diffygion ariannol ymhlith awdurdodau lleol a sgîl-ffeithiau hyn. Codwyd pryderon am sut y byddai hyn yn rhoi gwaith cynnal a chadw, gwaith i baratoi achosion busnes, gwaith monitro llifogydd, gwaith ymwybyddiaeth a gwydnwch, gwaith i roi cynlluniau cost isel bach ar waith, gwaith cynllunio hirdymor a'r gallu i gadw staff medrus yn y fantol. Roedd pryder hefyd ynghylch yr effaith y gallai'r diffyg hwn ei chael ar allu awdurdodau lleol i ddarparu cyllid cyfatebol ar gyfer cynlluniau. Awgrymwyd y dylid cynnwys rhaglen Mân Waith o fewn FaCIP er mwyn ystyried cynlluniau bach ac y dylid rhoi arian i awdurdodau lleol ymchwilio ymhellach i'r perygl llifogydd yn eu hardaloedd. Unwaith eto, awgrymwyd y dylid cynnwys cyllid refeniw o ddechrau'r rhaglen.

Nodwyd y byddai angen hyblygrwydd o ran trefniadau ariannu er mwyn gallu ymdopi â'r ansicrwydd ynghylch risgiau cyflawni ac unrhyw gynnydd/gostyngiad mewn costau. Mae angen yr hyblygrwydd hwn hefyd o ran gwariant a gymeradwyir er mwyn helpu â chyfyngiadau amser penodol (e.e. tymor silio pysgod/tymor nythu adar) nad ydynt yn cyd-fynd â therfynau amser mympwyol y flwyddyn ariannol. Byddai cyfnod o ddwy neu dair blynedd i wario arian yn golygu y byddai cynlluniau yn gallu bwrw ati yn y ffodd fwyaf economaidd ac amgylcheddol briodol.

Nodwyd bod y weithdrefn bresennol ar gyfer ceisiadau grant yn dadannog tirfeddianwyr preifat rhag ymgeisio am gyllid grant mewn ardaloedd lle mae asedau preifat yn cyfrannu at y perygl llifogydd. Gallai FaCIP gynnig cyfle i symleiddio'r broses hon. Byddai hefyd yn annog y broses o gyflwyno'r Systemau Draenio Cynaliadwy pe gallai awdurdodau lleol, cwmnïau carthffosiaeth a/neu ddatblygwyr gael gafael ar gyllid FaCIP ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus.

Cyflwynwyd nifer o sylwadau o ran ystyried tir amaethyddol o fewn FaCIP a phwysigrwyd diogelu tir at ddibenion cynhyrchu bwyd a'r buddiannau economaidd sy'n rhan annatod o'r sector amaethyddol. Nodwyd hefyd y gallai ffermwyr a thirfeddianwyr fod mewn sefyllfa dda i ymgymryd â gwaith am gost llawer is na Cyfoeth Naturiol Cymru ac y gallant felly gyflawni mwy gan ddefnyddio llai. Awgrymwyd y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau perygl llifogydd lleol helpu deiliaid tai a busnesau sy'n awyddus i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw eu hunain a'u grymuso i weithio gyda chymunedau lleol i ddatblygu atebion lleol.

Unwaith eto, codwyd pryder ynghylch cyfuno erydu arfordirol a pherygl llifogydd o fewn un mynegai a sut y byddai hyn yn effeithio ar awdurdodau lleol mewndirol. Un cynnig a gyflwynwyd oedd y dylai FaCIP gynnwys dwy raglen fuddsoddi, un yn

canolbwyntio ar lifogydd ac erydu arfordirol ac un ar gyfer y perygl llifogydd o afonydd a dŵr wyneb.

Wrth fwrw ati i ddatblygu FaCIP, cyflwynwyd nifer o awgrymiadau/cwestiynau i'w hystyried, gan gynnwys:

- Byddai'n ddefnyddiol pe câi Awdurdodau Rheoli Perygl weld mynegai drafft cyn llunio'r fersiwn terfynol er mwyn gallu nodi ardaloedd lle ceir amddiffynfeydd digonol ac ardaloedd lle y mae angen cynnal ymchwiliadau pellach.
- Mae angen datblygu FaCIP mewn ffordd gynlluniedig a rheoledig er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Rheoli Perygl yn deall sut y bydd FaCIP yn gweithredu a'r gofynion a fydd arnynt. Mae'n debygol y bydd angen llunio canllawiau a chynllun cyfathrebu er mwyn gwneud hyn.
- Mae angen i FaCIP ddarparu ar gyfer ardaloedd a fu bron â dioddef llifogydd yn hanesyddol na fyddent yn rhan o set ddata ond y dylid eu hystyried.
- Os bydd y bwrdd yn cyfarfod bob chwarter, sut mae hyn yn cyd-fynd â'r amserlen arfaethedig lle mai dim ond unwaith y flwyddyn y gellir cyflwyno ceisiadau.
- Mae angen eglurhad pellach o ran:
 - Beth yw'r rhaglen/amserlen ar gyfer cyflawni'r holl elfennau gofynnol (canllawiau, cyfraddau grant, gweithdrefnau ymgeisio)
 - Sut y caiff y bwrdd ei benodi
 - Sut y caiff buddsoddiad mewn gwaith ymgysylltu cymunedol, codi ymwybyddiaeth a modelu ei ariannu
 - Dylid symleiddio cyfraddau grant awdurdodau lleol a'u had-drefnu cymaint â phosibl
 - Canllawiau ar sut y bydd FaCIP yn ystyried cyfraniadau ariannol lleol, ceisiadau gan bartneriaethau a'r effaith ar flaenoriaethu a dyrannu
 - Mae angen canllawiau i egluro sut y bydd FaCIP yn ystyried gwaith ar ôl digwyddiadau

Ymhlith y sylwadau eraill a gafwyd roedd:

- Dylai'r holl wariant posibl drwy FaCIP ystyried rhestr lawn o fuddiannau ehangach posibl gan gynnwys buddiannau cymdeithasol, economaidd, ecolegol ac iechyd.
- Mae angen ystyried y perygl llifogydd i bobl oherwydd penderfyniadau cynllunio neu fynd yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd ar wahân i'r gwaith hwn
- Mae gan Gynlluniau Rheoli Traethlin a Chynlluniau Rheoli Basn Afon broffil isel yn y papur ymgynghori; maent yn berthnasol iawn i'w hystyried.
- Dylid cynnal ymgynghoriad cymunedol lleol llawn ochr yn ochr â phob prosiect er mwyn galluogi mwy o gyfraniad ar yr elfennau dylunio ac er mwyn ennyn gwell cefnogaeth gan y cyhoedd.
- Y flaenoriaeth gyntaf yw perygl i fywyd, ond nid oes unrhyw flaenoriaeth/pwysoliad ar gyfer adeiladau megis ysgolion, ysbytai a meddygfeydd
- Mae FaCIP yn cynnig cyfle i gyflwyno ffyrdd effeithiol ac arloesol o ddefnyddio ymyriadau ariannol i wireddu canlyniadau hirdymor o ran rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol a byddai'n helpu i hwyluso'r broses o ystyried cyllid ar gyfer prosiectau nad ydynt yn rhan o'r ffrwd prosiectau traddodiadol a gyflwynir gan Awdurdodau Rheoli Perygl arweiniol.

Camau Nesaf

Bydd y camau nesaf o ran y Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir fel a ganlyn:

- ailgynnull gweithgor FaCIP er mwyn ystyried canfyddiadau'r ymgynghoriad – erbyn haf 2015
- diwygio'r memorandwm grantiau a'r amserlen newydd ar gyfer cyflwyno hawliadau a cheisiadau i Lywodraeth Cymru – erbyn haf 2015
- cyhoeddi mapiau llifogydd newydd i Gymru (Cyfoeth Naturiol Cymru) erbyn hydref 2015
- ystyried yr opsiynau ar gyfer cronfa ddata ar asedau amddiffyn presennol
- ystyried yr opsiynau ar gyfer cronfa ddata o ddigwyddiadau llifogydd
- diwygio'r Canllawiau Arfarnu Prosiectau – erbyn diwedd 2015
- ystyried yr opsiynau ar gyfer llywodraethu FaCIP
- ystyried yr opsiynau ar gyfer Mynegai Perygl Llifogydd, gan ystyried cyhoeddi Mapiau Llifogydd gwell i Gymru a chronfeydd data o asedau a digwyddiadau llifogydd hanesyddol
- cynllunio trefniadau cyfathrebu effeithiol gyda rhanddeiliaid

Awgrymwyd drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad y gallai pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru ymgymryd â'r rôl o lywodraethu FaCIP neu rywfaent o'r cyfrifoldebau, ond ers i'r ymgynghoriad ddod i ben, mae'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol wedi cyhoeddi y caiff Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol newydd ei sefydlu drwy Fil yr Amgylchedd i roi cyngor ar bob ffynhonnell llifogydd ac erydu arfordirol ledled Cymru. Ni phenderfynwyd ar fanylion y pwyllgor hwn eto, ond wrth roi cyngor ar bob agwedd ar lifogydd ac erydu arfordirol, bydd gan y pwyllgor gysylltiadau agos â Bwrdd FaCIP. Bydd angen i'r trefniant llywodraethu ar gyfer FaCIP ystyried strwythur y pwyllgor newydd hwn, a chysylltiadau ag ef.

Darparodd yr ymgynghoriad rai sylwadau defnyddiol iawn o ran asesu perygl, cydnabod digwyddiadau llifogydd gwirioneddol/hanesyddol a ph'un a ddylid ystyried presenoldeb amddiffynfeydd presennol a'u cyflwr. Nodwyd hefyd yr angen am gronfa ddata gyson o asedau rheoli perygl llifogydd yn y Cynllun Cyflenwi Arfordirol (2015). Caiff dichonoldeb coladu a mapio data ar asedau amddiffyn presennol a digwyddiadau llifogydd ac erydu a gofnodwyd ei ystyried ymhellach.

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd o ran symleiddio cyfraddau grant, ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at bob awdurdod lleol ym mis Mai 2015, yn symleiddio'r gyfradd grant ar gyfer cyllid rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. Bydd pob cynllun arfordirol (erydu arfordirol a llifogydd) bellach yn gymwys i gael cyllid grant o 75%, a chaiff cynlluniau afonol, dŵr arwyneb a meithrin gwydnwch eu hariannu ar lefel o 85%.

Atodiad 1: Rhestr ymatebwyr

Cafwyd cyfanswm o 34 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn:

- 21 gan awdurdodau lleol
- 11 gan sefydliadau
- Un gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Un arall

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	Awdurdod lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr	Awdurdod lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	Awdurdod lleol
Cyngor Caerdydd	Awdurdod lleol
Cyngor Sir Gaerfyrddin	Awdurdod lleol
Cyngor Ceredigion	Awdurdod lleol
Dinas a Sir Abertawe	Awdurdod lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Awdurdod lleol
Cyngor Sir Ddinbych	Awdurdod lleol
Cyngor Sir y Fflint	Awdurdod lleol
Cyngor Gwynedd	Awdurdod lleol
Cyngor Sir Ynys Môn	Awdurdod lleol
Cyngor Merthyr Tudful	Awdurdod lleol
Cyngor Sir Fynwy	Awdurdod lleol
Cyngor Castell-nedd Port Talbot	Awdurdod lleol
Cyngor Dinas Casnewydd	Awdurdod lleol
Cyngor Sir Penfro	Awdurdod lleol
Cyngor Sir Powys	Awdurdod lleol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen	Awdurdod lleol
Cyngor Bro Morgannwg	Awdurdod lleol
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	Awdurdod lleol
Cyfoeth Naturiol Cymru	CNC
CLA Cymru	Sefydliad
Ystadau'r Goron	Sefydliad
Dŵr Cymru	Sefydliad
Undeb Amaethwyr Cymru	Sefydliad
Rheoli Perygl Llifogydd Cymru	Sefydliad
Sefydliad y Peirianwyr Sifil	Sefydliad
Grid Cenedlaethol	Sefydliad
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru	Sefydliad
Ove Arup a'i Bartneriaid Cyfyngedig	Sefydliad
Partneriaeth Pwllheli	Sefydliad
Tidal Lagoon Power	Sefydliad
Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro	Arall

Atodiad 2: Rhestr talfyriadau

FaCIP – Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd a'r Arfordir

FRMW – Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

LLFA – Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol

LSOA – Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is

NCERM – Map Perygl Erydu Arfordirol Cenedlaethol

CNC - Cyfoeth Naturiol Cymru

RMA - Awdurdod Rheoli Perygl

SMP – Cynllun Rheoli Traethlin

TAN - Nodyn Cyngor Technegol